



LLWYDDIANT



YSGOL



TY GWYDR

ECO'r Wyddfa

Rhif: 401
Gorffennaf / Awst 2012
Pris: 50c


Cynllun Trydan-Dŵr arall i'r Ardal?

Mae cwmni rhyngwladol o'r enw Quarry Battery gyda chynlluniau i ddatblygu hen chwareli llechi ar lethrau'r Cefn Du gyda'r bwriad o greu trydan gan ddefnyddio'r un dechnoleg ac a ddefnyddir dan grombil yr Elidir a hen Chwarel Dinorwig.

Y bwriad yw defnyddio twll chwarel y Chwarel Fawr ger copa Cefn Du fel y gronfa uchaf, ac yna bibellu'r dwr yn dan-ddaearyl i lawr y llethrau i dwll chwarel Glyn Rhonwy islaw. Mae cynlluniau manwl ac astudiaethau amgylcheddol, archaeolegol a hanesyddol eisoes wedi eu paratoi. Mae'r cwmni hefyd wedi ymgynghori â gwahanol asiantaethau ac adran economaidd Cyngor Gwynedd. Eu bwriad maes o law yw cysylltu â chynghorau cymuned yr ardal i egluro'r cynlluniau. Gall y datblygiad effeithio ar drigolion Y Waunfawr oherwydd yn ystod y cyfnod adeiladu, byddai

cryn ddefnydd ar y ffordd o Groeslon y Waun i fyny i gyfeiriad Bwlch y Groes.


Ddiwedd y mis hwn bydd cyfle i gael golwg fanylach ar y datblygiad arfaethedig pan gynhelir dyddiau agored yng Ngwesty Fictoria, Llanberis. Bydd swyddogion o'r cwmni ar gael i ateb unrhyw ymholiadau ar ddydd Gwener, Mehefin 29ain rhwng 10 o'r gloch y bore a 4.30 y pŵn, ac wedyn ar y dydd Sadwrn. Mehefin 30ain rhwng 10 o'r gloch y bore a hanner awr wedi saith y nos. Gallwch hefyd astudio'r holl gynllun a'r adroddiadau manwl ar safle'r cwmni: www.quarrybattery.com



Y twll chwarel ger copa Cefn Du – y gronfa uchaf arfaethedig.



Golygfa o Gefn Du tua Llyn Padarn a gwaelod chwarel Glyn Rhonwy. Yma y gosodir y pibellau dwr tanddaearol.



TRO PEDOL GAN S4C

Yn rhifyn Mawrth o'r "Eco" datgelwyd nad oedd S4C yn bwriadu darlledu uchafbwyntiau Ras yr Wyddfa eleni, a hynny am ei bod i'w chynnal ar ddiwrnod agoriadol y Gemau Olympaidd yn Llundain. Newidiodd pwyllgor Ras yr Wyddfa y dyddiad, ond gwrthod oedd ateb S4C eto, a hynny'n ddigon swta.

Bellach, daeth y newyddion fod S4C wedi newid meddwl, a bydd Cwmni Da o Gaernarfon yn ffilmio'r ras ac yn ei darlledu'r diwrnod canlynol. Dywedodd Stephen Edwards,

Trefnydd y Ras fod hyn yn newydd calonogol iawn. Meddai, "Hoffwn ddiolch i'r "Eco" am roi sylw ar y dudalen flaen i'r ffaith nad oedd S4C yn bwriadu ffilmio'r ras. Diolch hefyd i bawb o'r trigolion

lleol am lythyr a chysylltu â S4C i brotestio ynglyn â'r penderfyniad. Anfonwyd erthygl flaen yr "Eco" a llythyr Mr John H. Hughes, Llanberis (a ymddangosodd yn rhifyn Ebrill) i S4C fel rhan o'r

protestiadau. Mae'n amlwg eu bod wedi gwneud yr argraff gywir. Mawr obeithiwn y cawn ras gyffrous eto eleni; ras a fydd yn rhoi pleser i bawb o wylwyr S4C."

Eisteddfod yr Urdd.

Llongyfarchiadau i blant a phobl ifanc y fro ar eu llwyddiannau ar y llwyfan, mewn sioeau cerddorol ac yn y gwaith cartref.

Roedd yn fwriad neilltuo'r dudalen flaen i'r enillwyr, ond yn anffodus, ni anfonwyd lluniau o'r buddugwyr i'w cynnwys.

RHIF 401
GORFFENNAF 2012
Argraffwyd gan
Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Straeon ac erthyglau
ar e-bost i
Dafydd Whiteside Thomas
Bron y Nant, Llanrug
01286 673515
ecorwyddfa@gmail.com

CADEIRYDD
Y PWYLLGOR GWAITH
Geraint Elis

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR
Gwynnaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)
glasgoed@hotmail.com

TREFNYDD HYSBYSEBION
Eifion Roberts, Swŷn-y-Gwynt,
Llanberis (870740)
eifionroberts132@btinternet.com

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD BWNDELU
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI
DEINIOLEN: Nia Gruffudd (872133)
BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726
BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)
CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)
CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)
CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)
DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)
LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Swŷn-y-Gwynt (870740)
LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn
Moelyn (675384)
NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant
Ffynnon (871820)
PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (872407)
TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)
WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF
Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS SUL, 17 Mehefin
Os gwelwch yn dda
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, 28 Mehefin.

gosodwyd gan

grid
dylunio graffeg
07766956673

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO 2012

Rhifyn	Copi	Plygu	Ble
Medi	Awst 19	Awst 30	Llanrug

LLYTHYRAU

Ysgol Seicoleg
Prifysgol Bangor
Annwyl Olygydd

Tybed a allai rhai o'ch darllenwyr hŷn ein cynorthwyo gyda'n prosiect ymchwil, 'Un iaith neu ddwy - a yw defnydd iaith yn effeithio ar les unigolion?' Rydym yn ymchwilio'r posibilrwydd a yw siarad un neu ddwy iaith yn gwneud gwahaniaeth o ran y broses heneiddio, a beth all fod wrth wraidd y gwahaniaeth hwn. Gobeithio y bydd yr ymchwil hwn yn cyfrannu tuag at driniaeth ataliol yn y dyfodol.

Rydym yn edrych am bobl gweddol iach dros 60 oed i gymryd rhan, ynghyd â phoblsydd â phroblemau cof neu broblemau symudol. Wrth gytuno i gymryd rhan, golygir cwblhau amrywiaeth o holiaduron a thasgau naill ai yn y cartref neu yn y Brifysgol. Bydd yr ymchwilydd yn trefnu tri neu bedwar cyfarfod dros gyfnod o rai wythnosau ac rydym yn cynnig £20 er mwyn dangos ein gwerthfawrogiad o amser a chyfraniad y bobl sydd yn cymryd rhan yn y prosiect. Rydym hefyd yn cynnig costau teithio os oes well gan bobl ddod i'r Brifysgol.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael trwy gysylltu â mi ar 01248 388719 neu gan e-bostio p.martin@bangor.ac.uk.

Gobeithio'n fawr y bydd cymryd rhan yn ein prosiect yn apelio at rai o'ch darllenwyr ac edrychaf ymlaen at glywed ganddynt.

Yn gywir
Dr Pam Martin-Forbes.

Annwyl Olygydd,
Cefais gryn ddifyrrwch yn darllen eich atodiad cartwnaidd (400fed rhifyn) yn olrhain hanes yr Eco. Carwn longyfarch y tîm ar gyrraedd y garreg filltir yma.

Yn anffodus mae yna un camgymeriad ffeithiol yn un o'r cartwnau, a hoffwn ei gywiro rhag i haneswyr y dyfodol ei ddefnyddio. Nodwch ynddo fod Gwynnaf (cymeraf yn ganiataol eich bod yn cyfeirio at Gwynnaf Hughes) wedi bod yn tynnu'r lluniau ers y cychwyn, 1976 hyd 2012. Evan Parry, Ceunant, un o sefydlwyr y papur, oedd y ffotograffydd cyntaf, yn cael ei gynorthwyo gan y diweddar Gwynnaf Jones. Bu Evan yn brif ffotograffydd o Chwefror 1976 hyd Gorffennaf/Awst 1984. Yn rhifyn Medi 1984 y cyfeirir at Gwynnaf Hughes fel ffotograffydd yr Eco. Mae wrth y gwaith o hyd ar ôl 28 o flynyddoedd! Gwn hefyd fod yna rai swyddogion, gohebwyrr a dosbarthwyr wedi bod wrth y gwaith ers y rhifyn cyntaf. Llongyfarchiadau iddynt hwythau a derbyniwch fy niolch diffuant.

Ymlaen, felly, i'r 500fed rhifyn!

Yn gywir,
Arwel Jones (Golygydd cyntaf
Eco'r Wyddfa)
Cae Eboni, Penisarwaun.

THEATR BARA CAWS yn cyflwyno 'Ga' i fod..?'

Natur yn galw..! Mae ein cynhyrchiad nesaf yn addo bod yn chwa o awyr iach - yn llythrennol. Mi fydd y cwmni'n teithio gyda chomedi gwreiddiol am grŵp o bobol sy'n awyddus i brofi natur ar ei wylltaf mewn lleoliadau awyr agored o gwmpas y Gogledd.

Yn dilyn cyfnod o gydweithio gydag awdur o'r Iseldiroedd, Madeleen Bloemendaal, ar ei drama 'Man op Tak', fe fydd y cynhyrchiad yn dilyn helyntion doniol pump o unigolion sydd wedi ymgynnull dros benwythnos i fyw fel anifeiliaid. Peth od ydi trefnu i fynd yn wyllt ac mae ambell un yn llawer mwy parod i fynd yn ôl at natur na'i gilydd. Beth bynnag ddigwyddith, anghofian nhw byth mo'r profiad - yn naturiol.

Cyfarwyddwyr: Madeleen Bloemendaal a Bryn Fôn

Actorion: Rhian Cadwaladr, Iwan Charles, Carys Gwilym, Mared Elliw Huws, Merfyn Pierce Jones.

Bydd 'Ga' i fod..?' yn cychwyn ymarfer ar y 6ed o Fehefin ac yn cael ei lwyfannu mewn dau

£30: Er cof annwyl am Eirlys Jones, Gwynant, Penisarwaun, gan Brenda, Jonathan a Ken a'r teulu.

£20: Edryd a Louise Sharp, Caerdydd

£10: Mrs Mary Catherine Jones, Tan y Caerau, Clwt y Bont, Deiniolen; Teulu Pant Teg, Waunfawr; Robert ac Eryl Jones, 14 Well Street, Llanberis; Annie Wilson Evans, Ffordd Capel Coch, Llanberis; Alwyn a Christine Thomas, Stryd Fawr, Llanberis.

£5: Rhodd di-enw Llanrug; Siencyn a Glenys Griffiths, Llwyn Eithin, Bethel; Osian Trefor. 1 Bron Helen, Clwt y Bont, Deiniolen; Teulu Iwan Wyn Williams, Carling, Llanberis; Menna Jones, 6 Stryd y Ffynnon, Llanberis; Mrs Madeline Lovel; Miss Munro, Llanrug.

leoliad, sef ym Mharc Glynllifon, Llanwnda, ger Caernarfon o Orffennaf 11eg hyd at Nos Sadwrn Gorffennaf 14eg a matini am 3.00 y prynhawn ar Orffennaf 14eg yn ogystal. Mae tocynnau ar gael o'r Galeri, Caernarfon 01286 685 222.

Yna, byddwn yn llwyfannu'r cynhyrchiad

yn Nhŷ Henblas, Bodorgan Ynys Môn (LL62 5DL) o Nos Fercher, Gorffennaf 18fed, hyd at nos Sadwrn 21ain o Orffennaf gyda matini am 3.00 y prynhawn ar y 21 o Orffennaf. Tocynnau ar gael drwy ffonio Mari Emlyn, Theatr Bara Caws 01286 676335.

Bydd modd cael gwybodaeth bellach ar ein gwefan yn ogystal: www.theatrbaracaws.com.

Gyda mawr ddiolch i chwi am eich cydweithrediad bob amser. Gobeithio y bydd modd i ddarllenwyr y papur bro ymuno â ni yn y lleoliadau perfformio... gyda phawb yn gwneud yn siŵr fod ganddynt ddillad addas - noson i'w chofio.

Cofion gorau,
Linda Brown,
ar ran Bara Caws

Cyfarfod i Gefnogwyr yr "Eco".

Ar nos Lun, 2il o fis Gorffennaf am 7.00 yn Y Sefydliad Coffa, Llanrug, cynhelir cyfarfod o swyddogion a gohebwyrr yr "Eco". Mae croeso cynnes i unrhyw un sydd â diddordeb mewn cynorthwyo gyda'r gwaith i fynychu'r cyfarfod.

YSGOL GYNRADD

1. Bu Blwyddyn 4 a 5 ar ymweliad yng Nghaernarfon. Cawsom ein harwain o gwmpas y dref gan Mr Emyr Llewelyn ar daith ddifyr yn olrhain hanes y dref cyn ymweld â'r castell. Yn y prynhawn cawsom amser braf iawn yng ngwarchodfa'r Foryd gyda'r wardeiniaid yn chwilota am greaduriaid y môr.
2. Llongyfarchiadau mawr i griw Angylion Bach Kelly a ddaeth yn drydydd yng nghystadleuaeth Dawnsio disgo/hip-hop/stryd yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nglynllifon. Aelodau o'r tîm oedd Efa [Blwyddyn 5], Elain Elis [Blwyddyn 5], Ella [Blwyddyn 5], Lisa Williams [Blwyddyn 5]. Mae eu hyfforddwraig, sef Kelly, yn gymhorthydd gyda'r plant Meithrin.
3. Bu nifer o'r plant yn rhedeg mewn ras draws gwlad yn y Faenol.
4. Braf iawn oedd gweld nifer o'r plant yn cymryd rhan ym Mhasiant y Plant yn Eisteddfod yr Urdd eleni. Byddent yn sicr yn cofio'r profiad am byth.
5. Llongyfarchiadau i Teleri, Efa, Leisa, Elain Elis, Rhydian, Owain ac Iwan a gymrodd ran yn seremoni'r Coroni yn Eisteddfod yr Urdd Glynllifon fel rhan o dîm Dawnsio Gwerin o ysgolion Arfon. Roeddent yn edrych yn ddigon o sioe. Diolch i Mrs Heulwen Evans am eu hyfforddi.

LLONGYFARCHIADAU i Gwenan a Cemlyn, Trem Eryri, Stad Glanffynnon, ar enedigaeth Lleucu Pyrs ar Fai 30. Chwaer fach i Elliw Pyrs. Llongyfarchiadau oddi wrth deulu Llanrug a theulu Bethel.

SEFYDLIAD COFFA. Enillwyr Clwb Cant Mai oedd: 1. N. Hughes, Talybont; 2. E. Jones, Terfynau, Talybont; 3. I. Williams, 35 Nant y Glyn.

PLAID CYMRU. Enillwyr Clwb Cant Mehefin oedd: 1. Goronwy Hughes; 2. Charles Jones.

LLONGYFARCHIADAU. Gan na fydd yr Eco allan yn Awst, hoffem longyfarch o flaen llaw Clifford a Vera Williams, Awelon, Ffordd yr Orsaf, a fydd yn dathlu eu Priodas Aur ar 17 Awst. Pob dymuniad da i chi.

BABIS NEWYDD. Dymunwn longyfarch Cemlyn a Gwenan Jones, 7 Ffordd

Glanffynnon ar enedigaeth Lleucu Pyrs, chwaer fach i Elliw a wyres arall i Doug ac Avril Jones, Stad Minffordd, a Geraint ac Ann Elis, Bethel.

Merch fach hefyd a anwyd i Gwen a Stephen, Stad Afon Rhos. Chwaer fach i Guto a Lois, wyres i Glyn a Lynn, Stad Talybont a Nain Janice, Ffordd yr Orsaf.

Llongyfarchiadau i John a Mary Roberts, Bedw Gwynion, Ffordd Glanmoelyn ar enedigaeth wŷr newydd, Llew Gwyn, a aned i Lowri a Siôn Gwyn.

EISTEDDFODYRURDD. Roedd yn bleser mawr dilyn yr Eisteddfod a rhaid llongyfarch plant a phobl ifanc y pentref a gymerodd ran mewn sawl cystadleuaeth, pasiant y plant a'r sioe uwchradd. Daeth llwyddiant mawr i unigolion, partion, corau a bandiau, gyda mawr ddiolch i'w hathrawon.



LLEWOD LLANRUG

Llongyfarchiadau ar ennill twrnament Dyffryn Nantlle yn ddiweddar, a hynny heb golli yr un gem. Enillwyd y chwe gem grwp i gyrraedd y rownd gynderfynol, a churo Cae Glyn o 3 gol i 2. Jack Burman (2) ac Owen Roden yn sgorio. Yn y ffeinal, curo tim Dyffryn Nantlle o unig gol y gem; Owain Larsen yn sgorio.

Roedd y gwaith dysgu a chefnogi yn amlwg iawn yn eu perfformiadau a'u mwynhad. Mae angen diolch i'r cefnogwyr a'r gwirfoddolwyr lleol a wnaeth i'r Eisteddfod lwyddo, yn gyfraniadau ariannol, pwyllgorau lleol ag ardal a'r mynychwyr i'r maes ym mhob tywydd! Roedd yn Eisteddfod arbennig.

PEN-BLWYDD HAPUS. Bu i Mrs Persis James (Bryn Mair) Cartref y Foelas nawr, ddathlu ei phen-blwydd yn 103 y mis hwn. Llongyfarchiadau mawr i chi, gan obeithio eich bod wedi cael diwrnod hapus iawn.


ARHOLIADAU. Mae amser arholiadau wedi cyrraedd eto! Dymunwn bob llwyddiant i chi i gyd yn eich dewis yn dilyn y canlyniadau.

GWERSI PIANO a Theori i blant ifanc i ddechrau mis Medi. Rhif ffôn 07788438881.

LLWYDDIANT I'R BAND Daeth y Band yn fuddugol mewn cystadleuaeth yn y Drenewydd yn ystod mis Mehefin. Fe'i trefnwyd gan Fand Pres y Drenewydd fel rhan o ddathliadau carnifal y dref. Nid yw cystadleuaeth gorymdeithio tra'n chwarae mor gyffredin bellach, ond dyna a gafwyd yn y Drenewydd, a Llanrug ddaeth i'r brig yn Adran 2.

C Y M O R T H CRISTNOGOL.

Casglwyd £1434-47 yn yr ardal yn ystod y mis diwethaf. Gyda diolch i'r casglwyr a'r cyfrannwyr.



DIOLCHIADAU. Dymuna Huw Owen, Gladwyn, Ffordd yr Orsaf, ddiolch yn fawr iawn i bawb am ei gefnogi yn y ras yn Rhaeadr yn ddiweddar. Ei nod oedd codi arian er budd Cŵn Tywys, Llongyfarchiadau i chi, Huw, da iawn wir.

WAVELL'S

Bryn ac Angela Williams

London House, LLANRUG

Ffôn:

(01286) 673574

PEN CIGYDDION Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus, Selsig cartref

Cigoedd parod i'w bwyta Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU DEWCH ATOM NI!

Pryd i Bawb

Arlwyo at bob achlysur yn unrhyw leoliad Bwffe blasus o safon



- Priodas •
- Cyfarfodydd busnes
- Bedydd/Parti/Te angladd
- Basged Picnic
- Bwyd yn unig neu gwasanaeth llawn

Cerid Mackinnon

Ffôn: **01286 673190**

Symudol: **07774 925502**

CERIS JONES

Teglan, Stâd Talybont

LLANRUG

677362

neu symudol

07979620996

- Trwsio ceir a faniau
- Gwaith MOT
- Mecanic profiadol iawn
- Prisiau cystadleuol

MERCHED Y WAWR

Nos Fawrth, Mehefin 12fed aeth llond bws o aelodau i Winllan Pant Du, Penygroes ac, wrth lwc, roedd y tywydd yn hyfryd i ni gael crwydro'r winllan a'r perllannau afalau. Mae Pant Du ym Mhenygroes ar gyrion Caernarfon, ac mae ar fin gwneud tipyn o argraff yn y diwydiant diodydd yng Nghymru.

Yn ôl y cyfnodolyn 'Cywain', mae Richard Huws a'i wraig, Iola, newydd lansio'r poteli cyntaf o win Pant Du, 'pd', ac maent wrthi'n cynhyrchu eu sudd afal a'u seidr cyntaf ar lethrau Dyffryn Nantlle. Yn ôl yn 2006 plannwyd 15 erw o goed afalau, o'r 2,800 o goed roedd 800 ohonynt yn fathau o afalau Cymreig traddodiadol, fel Enlli, Nant Gwrtheyrn a Cox Cymreig. Yn ôl Richard Huws mae wedi cymryd 5 mlynedd i gyrraedd y sefyllfa i gynhyrchu sudd afal a seidr ac maent yn edrych ymlaen at ddatblygu'r busnes dros y blynyddoedd nesaf.

Agorwyd siop yma gan Bryn Terfel, Alun Ffred Jones ac Elwyn Jones Griffith ar 3 Medi, 2011, a bellach mae caffi ar agor yn ddyddiol hefyd. Dymunir diolch i Iola am ei hanerchiad difyr ac i Iolo am fynd â ni o gwmpas Pant Du. Pob dymuniad da i'r fenter i'r dyfodol.

Wedi'r daith ddifyr, mwynhawyd pryd o fwyd ardderchog yng ngwesty'r

Meifod. Gyda Mair yn llywyddu diolchodd i staff y gwesty am y bwyd ardderchog ac i Carys Wyn a Gwenda am drefnu'r noson. Diolchwyd i bawb a fu'n helpu yn Eisteddfod Eryri a llongyfarchwyd heulwen, Bethanne a'u cyfeilyddion ar hyfforddi'r plant gyda'u dawnsio gwerin clodwiw yn y prif gystadlaethau.

Dymunir ymddeoliad hapus i Eirianwen wedi blynyddoedd o wasanaeth ym meddygfa Deiniolen.

Y mae cardiau gwahoddiad ar gael yn estyn croeso i unrhyw un ymuno â Changen Merched y Wawr Llanrug. Mae merched o bob oedran yn ymuno gan gynnwys nifer o ddysgwyr. Fel aelodau rydym yn gwneud pob math o bethau amrywiol, ciniawa, cwisiau, crefftau, chwaraeon, cynorthwyo elusennau – pob math o bethau cymdeithasol drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n gyfle i gymdeithasu a gwneud rhywbeth cadarnhaol a chael hwyl wrth wneud hynny. Byddwn yn cyfarfod yn Y Sefydliad Coffa yn Llanrug ar yr ail nos Fawrth bob mis am 7.30. Felly, beth am ymuno â ni ar nos Fawrth, 11 Medi. Croeso cynnes i chi. Llongyfarchwyd Avril a Doug ar ddod yn nain a thaid i Lleucu Pyrs, merch fach arall i Gwenan a Cemlyn. Dymunir gwyliau hapus i bawb.

CAPEL Y RHOS. Fore Sul, Mehefin 3ydd, bedyddiwyd Chloe Ann, Sŵn yr Efail. Gweinyddwyd gan y Gweinidog, y Parch Marcus Wyn Robinson, a chroesawyd nifer fawr o deulu a ffrindiau i'r gwasanaeth. Dymunwn bob bendith i'r teulu bach. Oedfaon Gorffennaf ac Awst.

Gorff 1: Y Gweinidog, Y Parch Marcus Wyn Robinson (Gweinyddir y Cymun)

8: Mr Eurfryn Davies

22: Mr Andrew Settatee

Awst 5: Mr John H. Hughes

19: Mr Merfyn Jones

15: Y Gweinidog

29: Parch Athro Euros W. Jones

12: Cyfarfod Gweddi

26: Parch D. John Pritchard


YSGOL GYNRADD



Y Sgwad tenis 2012



Bechgyn blwyddyn 3



Genethod blwyddyn 3



Hogiau blwyddyn 4



Genethod blwyddyn 5 a 6

TWRNAMAIN TENIS YNG NGHAERNARFON

Bu plant yr Adran Iau yn cynrychioli'r ysgol mewn twrnamaint tenis ar 12fed o Fehefin yn y Ganolfan Hamdden yng Nghaernarfon. Roedd 32 o blant yr ysgol yn cymryd rhan. Rhoddodd pob un ohonynt eu gorau glas. Llwyddodd pedwar tîm i ddod yn gyntaf yn y twrnamaint a fe fydd 16 o'r plant yn mynd i Wrecsam ddiwedd mis Mehefin i gymryd rhan yn y rownd nesaf o'r twrnamaint. Pob lwc iddyn nhw!!

BYSUS RHIWLAS

Bysus bach a mawr ar gael ar gyfer pob math o logi preifat – nosweithiau allan, partïon, tripiâu ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan



(01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS

CHIROPODYDD

GALWADAU I'R CARTREF

RICHARD THOMAS SRCh/HPC

Cynylltwch Symudol 0797 631 6487 • Tŷ 01758 612384

MERCHED Y WAWR

I ddiweddu ein gweithgareddau am y tymor aeth rhai o aelodau'r gangen i Moelfre, Ynys Môn, nos Fercher, 13 Mehefin.

Yno cawsom sgwrs hynod ddiddorol gan y Parch Huw John Hughes ar 'Milgi Chwim y Weilgi', sef hanes llongdrylliad y 'Royal Charter' yn 1859 ar y creigiau ger Moelfre. Dymunwn gydnabod nawdd gan Llenyddiaeth Cymru tuag at y sgwrs. Gan fod y tywydd yn braf, cafwyd cyfle i gerdded ychydig ar hyd llwybr a ddaeth â ni at olwg y creigiau lle bu'r drychineb. I orffen y noson mwynhawyd pryd o fwyd yn Ann's Pantry. Cafwyd gair gan ein llywydd, Rita Dauncey Williams a llongyfarchodd dair nain, yn gyntaf Delyth – Alfie James, mab bach Gethin a Leanne; Margaret Druce – Iwan Rhys, mab Eurig a Llinos ac Anne Elis – nain i Lleucu Pyrs, merch Gwenan a Cemlyn. Pob dymuniad da i'r tri bach.

Nid yw Joyce, Lynwen ac Eryl wedi bod yn rhy dda yn ddiweddar. Dymunwyd gwellhad buan i'r tair gan

obeithio eu gweld yn ôl hefo ni y flwyddyn nesaf.

Roedd yr arddangosfa o'r fferm y mhabell Merched y Wawr ar faes Eisteddfod yr Urdd, lle roedd rhai o aelodau Bethel wedi cyfrannu ato, yn werth chweil ar ôl llawer o waith caled. Llongyfarchiadau i holl blant, ieuentid ac oedolion y pentref ar eu llwyddiannau yn eu gwahanol feysydd yn yr Eisteddfod. Roedd cyfraniad plant yr Ysgol Sul, yr Ysgol Gynradd ac Ysgol Brynrefail yn glod mawr i'r pentref.

Diolchodd Rita ar ddiwedd tymor i aelodau ffyddlon y gangen am fynychu'r cyfarfodydd ar hyd y flwyddyn. Diolchodd i aelodau'r pwyllgor ac i'r swyddogion am eu cefnogaeth a dymunodd yn dda i Glenys a'r tîm i gyd at y flwyddyn nesaf.

Diolch i berchennog y Gardd Fôn, Y Felinheli, am ei rodd o bryd o fwyd i ddau. Enillydd y dyddiad lwcus o'r dyddiadur oedd Liz Evans. Diolch i Beti, Glenys ac Eirlys Williams am ofalu am y raffl. Yr enillwyr oedd Gwyneth Price, Mary a Rita.

YSGOL SUL Y CYSEGR.

Braf oedd gweld nifer dda o blant yr Ysgol Sul ar lwyfan Eisteddfod yr Urdd yng Nglynllifon. Roeddent yno fel rhan o gôr Ysgolion Sul Eryri yn cymeryd rhan yn yr Oedfa i gychwyn gweithgareddau'r Eisteddfod.

LLWYDDIANT EISTEDDFOD.

Daeth llwyddiant nifer o blant yr ardal mewn amrywiol gystadlaethau a bu llawer ohonynt yn rhan o'r sioe Cynradd 'Ar Gof a Chadw', a'r sioe Uwchradd 'Sbri'. Rydym fel pentref yn ymfalchio yn nhalent ac ymroddiad y plant a'r ieuentid ac yn gobeithio y bydd Eisteddfod yr Urdd Eryri yn aros yn y cof am amser.

DIOLCHIADAU. Dymuna Mair James, 8 Bro Eglwys, Geraint a Hywel ac aelodau'r teulu oll ddiolch yn ddifffuantam bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth. Derbyniwyd gyda diolch y rhoddion caredig tuag at yr Ataxia UK a'r Cardiomyopathy Association er cof am William James.

CLWB BRO BETHEL. Ar ddiwrnod hyfryd o haf aeth 32 o'r aelodau am drip pen tymor. Yr ymweliad cyntaf oedd ymweld â Hufenfa De Arfon, ac

yno cawsom sgwrs ddifyr gan Peredur Williams yn olrhain hanes y cwmni o'r cychwyn. Cyn mynd oddi yno cafodd pawb gyfle i flasau dau fath o gaws, ac yna ymlaen i Bwllheli i grwydro'r dref. Pen y daith oedd lawr i Nant Gwrtheyrn lle bu i bawb fwynhau swper blasus iawn. Roedd y tywydd ar ei orau a braf oedd cael eistedd allan yn yr heulwen am ennyd cyn mynd i mewn i wledda. Diolchodd y Llywydd, y Parchedig Marcus Wyn Robinson, yn gynnes iawn i'r ddwy a drefnodd y trip, sef Ann Ellis Williams ac Ivy Wright.

DIOLCH AM HAELIONI.

Hoffai rhieni Cai Llwyd Jones, y chwaraewr tennis addawol lleol, ddiolch i drigolion Bethel am eu haelioni yn ddiweddar. Trwy garedigrwydd Cled a Susan rhoddwyd 'pot casglu' ar y cownter i noddi Cai. Gall anelu i'r brig fod yn gostus, yn enwedig yng nghyswllt yr holl deithio i ymarfer a chystadlu. Bu'r trigolion yn hael iawn a chyfrannodd Cled a Susan £50 at yr achos. Bydd y cyfraniadau yn mynd tuag at brynu raced arbennig i Cai ar gyfer Cystadleuaeth Iau yr Alban ddechrau mis nesaf. Llawer o ddiolch am enghraifft arall o'r ysbryd cymdeithasol, a phob hwyl i Cai yn y gogledd draw.

Cynnyrch a gwasanaethau priodol ar gyfer y rhai dros 50 oed

- Yswiriant Cartref
- Yswiriant Car
- Yswiriant Teithio
- Nwy a Thrydan
- Larymau Personol
- Cynlluniau Angladdau



Am bris heb rwymedigaeth, ewch i:

Age Concern Gwynedd a Mon
Ty Seiont, Ffordd Santes Helen
Caernarfon LL55 2YD
Ffôn: **01286 678310**
(ar agor 9am–5pm Mon to Fri)

Neu ffoniwch **0800 085 3741** neu ewch i
www.ageuk.org.uk/products



Darperir yswiriant cartref, car a theithio gan Yswiriant Ageas Cyfyngedig.
Darperir Nwy a Thrydan gan E.ON Energy Solutions Cyfyngedig.
Age UK yw nod masnach Age UK (Elusen rhif 1128267). Defnyddir enw a logo Age UK o dan gytundeb trwydded rhwng Age UK ac Age UK Enterprises Limited, sef eu cangen gwasanaethau masnachol. Rhoddir yr elw net i Age UK. Age UK Enterprises Limited, Linhay House, Ashburton, Devon TQ13 7UP. ID9975 11/10 MP2430V2APR11 SL031616_11_1

CEIR CYMRU

BETHEL (0148) 670 451

(Hefyd yng Ngherrig-y-Drudion)

A ydych yn ystyried newid eich car o fewn y flwyddyn nesaf? Ystyriwch y ffeithiau hyn.

1. Mae tri-chwarter y ceir newydd a gaiff eu gwerthu ym Mhrydain yn colli rhwng 25% i 30% o'u gwerth erbyn eu bod yn naw mis oed
2. Mae cwmnïau mawr a chwmnïau lesio a llogi yn derbyn oddeutu 25% o ddiscount wrth brynu eu ceir ac felly mae'r cerbydau hyn yn dod ar y farchnad am brisiau isel ac fel arfer mewn cyflwr rhagorol wedi cael eu cynnal a'u cadw heb ystyried costau
3. Mae gennym brofiad o 40 mlynedd yn prynu a gwerthu ceir ail-law ac rydym ar gyfartaledd yn trafaelio mil o filltiroedd bob wythnos yn chwilio am y bargeinion gorau er mwyn eu cynnig i bobl Gwynedd ar elw sydd fel arfer o qwmpas 5% o'r pris

Cofiwch ddefnyddio

SWYDDFA POST BETHEL

(01248) 670261

Cewch groeso cynnes gan **CLED A SUSAN**

Cofiwch am ein gwasanaeth newid pres tramor, yswiriant, talu biliau, etc., yn ogystal â gwasanaethau arferol Swyddfa'r Post.

A hefyd Paypoint, Loteri a Pheiriant • Tynnu Pres (Cashback)

ORIAU AGOR
6 a.m.–7.30 p.m.
(Llun–Sadwrn)
6 a.m.–3 p.m. (Sul)



SEFYDLIAD Y MERCHED. Yn ystod y mis ymunodd nifer o'r aelodau Â chwrs Saethyddiaeth yng Nglynllifon a chael llawer o bleser gyda'r hyfforddiant. Edrychir ymlaen am gwmni Dafydd Ellis, Gweledfa, i roi sgwrs yng nghyfarfod nesaf y gangen. Mae pawb ar hyn o bryd yn gweithio'n galed ar gyfer Diwrnod Rhyngwladol Sefydliad y Merched yn y Ganolfan, Llanberis ar Fehefin 30ain.

YSGOLORIAETH. Yn Eisteddfod yr Urdd Eryri yng Nglynllifon, lansiwyd Ysgoloriaeth Geraint George. Bydd y wobwr hon yn cael ei chynnig i berson ifanc rhwng deunaw a phump ar hugain oed i feithrin cyfathrebwyr arbennig all helpu pobl i werthfawrogi'r byd o'u cwmplas. Bydd yn gyfle i unigolyn greu cyflwyniad fydd yn eang o ran ei natur mewn perthynas â chyfathrebu amgylcheddol yng Nghymru. Bydd yr ysgoloriaeth hon yn deyrnged clodwiw i waith y diweddar Geraint George yn y maes arbennig hwn.

YREGLWYS BRESBYTERAIDD

Y GYMDEITHAS. Bu cyfarfod o'r Gymdeithas nos Iau, Mehefin 14eg. Cadeirydd y noson oedd Ifanwy Jones, Rhandir. Yn dilyn gair o groeso cyflwynodd fyfyrddod byr ar y thema 'Duw i Diffeithwch' a oedd yn arweiniad i sgwrs y noson. Y siaradwr oedd Lowri Prys Williams, Godre'r Coed. Testun ei sgwrs oedd y profiadau a gafodd ar daith i Batagonia y llynedd a hynny drwy gyfrwng lluniau ar sgrin o gychwyn y daith yn Buenos Aires i'r Wladfa ac ar draws y paith i Gwm Hyfryd wrth odre'r Andes. Cafodd y criw o Gymry groeso gwresog gan ddisgynyddion yr hen Gymry aeth drosodd ar y Mimosa yn 1865. Ymwelodd ag amryw o gapeli, llawer ohonynt erbyn hyn ond megis amgueddfeydd teilwng o'r gogoniant a fu a'r diddordeb amlwg gan Lowri ymhob harmoniwm a welodd ar y daith. Yn wir, cafodd brofiad o gyfeilio i gynulleidfa fawr yng ngwasanaeth y Pasg yn Nhabernacl Trelew. Plethwyd ganddi hanes Cymru'r Wladfa a laniodd yn Mhorth Madryn â bywyd y disgynyddion heddiw gyda chyfeiriad arbennig at aberth y Cymry cynnar i adeiladu'r camlesi i ddyfrhau tir diffaith dyffryn Camwy i fod yn lle cyfannedd i fyw a datblygu amaethyddiaeth ar raddfa eang yng Nghwm Hyfryd – dwy orchest na chafodd erioed eu gwir gydnabod gan Lywodraeth Ariannin. Diolchwyd yn gynnes iawn i Lowri am noson ddiddorol iawn a chafwyd trafodaeth fywiog yn dilyn.

Bydd cyfarfod nesaf y Gymdeithas nos Iau Gorffennaf 12fed yng Nghwmni Dafydd Ellis, Gweledfa.

Y cadeirydd fydd Gwyn Hefin Jones.

OEDFAON GORFFENNAF

- 8: Parch Gwynfor Williams, Caernarfon
- 15: Parch S.O. Hughes, Hen Golwyn
- 12: Parch Gwenda Richards, Caernarfon
- 29: Parch Harri Owain Jones, Llanfairpwll Gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD ERYRI 2012.

Llongyfarchiadau i bawb a oedd wedi cyfrannu at lwyddiant yr Eisteddfod yng Nglynllifon dechrau mis Mehefin. Diolch i'r plant a phobl ifanc sydd wedi ymarfer yn yr ysgolion lleol ac wedi cystadlu yn yr eisteddfodau cylch, rhanbarth a chenedlaethol. Diolch i'r rhieni, addysgwyr ac athrawon sydd wedi'u dysgu a'u hebrwng. Diolch i'r holl wirfoddolwyr a phwyllgorwyr - yn lleol ac yn rhanbarthol. Diolch i'r sawl sydd wedi addurno Caeathro gyda'r baneri gwyrdd, gwyn a coch. Diolch mawr iawn hefyd i bawb a oedd wedi cyfrannu mewn unrhyw ffordd tuag at godi mwy o arian na'r nod lleol at yr Apêl ranbarthol. Da iawn bawb!

NEWYDDION Y CAPEL

Cynhelir y gwasanaethau canlynol yn ystod mis Gorffennaf:

- Sul 3 Gorffennaf – 11:00 Ysgol Sul,
- Sul 10 Gorffennaf – 11:00 Ysgol Sul,
2:00 Oedfa'r Cymun o dan arweiniad y
Gweinidog, y Parchedig Marcus Robinson.
- Sul 17 Gorffennaf – 11:00 Ysgol Sul
- Sul 24 Gorffennaf - Ni chynhelir yr Ysgol Sul na'r Oedfa.
- Sul 31 Gorffennaf - Ni chynhelir yr Ysgol Sul.
2:00 Oedfa gyda'r Parchedig Harri Parri.

GWELLIANNAU.

Mae'r Cynghorydd Eurig Wyn wedi derbyn gwybodaeth gan Gyngor Gwynedd y caiff y gwelliannau sydd eu hangen i wella'r palmant sy'n cysylltu'r pentref a garej a siop Gwalia eu hasesu ar unwaith. Eir ymlaen a'r gwelliannau os a phan ddaw cyllid ar gael. Roedd y Cynghorydd Wyn wedi mynegi pryder fod cerddwyr, gan gynnwys anabl, yn methu cerdded y palmant presennol oherwydd polion goleuadau stryd.

**ECO'r
Wyddfa**

**Cefnogwch
ein
hysbysebwy**

**BARRYS
GLASS**

**FFENESTRI • DRYSAU
Conservatori UPVC**

**Trwsio Unedau
"DOUBLE GLAZING"**

Trwsio a Gosod Gwydr

**(01286) 872772
Symudol- 07840 794269**

Dylan Griffith
Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol

TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

*Gwaith Cerrig Beddi
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu'r Holl Ardal*

Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)



CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA
Cyhaeddach Mewn Steil Mewn Cerbyd *Rolls Royce*
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYD ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL

TYMOR YR ARHOLIADAU. Dyma dymor yr arholiadau unwaith eto. Dymunwn yn dda i blant y pentref sydd yn eistedd arholiadau yn yr ysgol neu yn y coleg a dymunwn yn dda i bawb sydd yn dechrau mewn coleg y tymor nesaf a'r rhai sydd yn dechrau mewn swydd am y tro cyntaf.

CYDYMDEIMLAD. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Mr Michael Lewis a'r teulu yn Bontnewydd yn eu profedigaeth o golli mam a nain, sef Mrs Mary Lewis, cyn-athrawes yn Ysgol Cwm y Glo. Hefyd cydymdeimlwn â Mrs Helen Morris, Gareth a'r teulu, Oakfield, Ffordd Capel Coch, Llanberis, yn eu profedigaeth o golli priod, tad a thaid, sef Mr Thomas Elwyn Morris (gynt o Bryn Awelon, Allt Goch).

UNDEB Y MAMAU. Cafwyd cyfarfod olaf y tymor Bnawn Mawrth, 19 Mehefin, yn Feed my Lambs Caernarfon. Croesawodd Mrs Auriel Howel pawb i'r cyfarfod a cafwyd gwasanaeth byr oedd yng ngofal Mrs Louie Jones. Darllenwyd cofnodion o'r cyfarfod gafwyd mis Mai a thrafodwyd rhai materion oedd i law. Aeth nifer o'r aelodau i'r gwasanaeth yn y Gadeirlan ym Mangor. Yr oedd y Gadeirlan yn orlawn a chafwyd pregeth gan y Parchedigaf Ddr. Barry Morgan, Archesgob Cymru. Mwynhawyd gweddill y pŵn yn cael gem o 'Beetle Drive'. Yn gofalu am y lluniaeth oedd Gwyneth, Hilda, Dorothy a Marjorie. Rhoddwyd y raffl ganddynt hefyd ac fe'i henillwyd gan Mrs Jenny Salisbury Jones. Diolchwyd i'r gwesteion gan Auriel. Terfynwyd y cyfarfod trwy adrodd y Gras yn Gymraeg a Saesneg.

Am gymorth:

- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i geisio am grant
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli



MANTELL GWYNEDD
Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
Supporting voluntary and community groups

cysylltwch â Mantell Gwynedd
- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com
01286 672626 neu 01341 422575

Elusen Gofrestredig 1068851 • Cofrestnwyd yng Nghymru • Cwmni Cyfynedig drwy Warant 3420271

Caffi Caban

ar Agor
9 y bore tan 4 y prawn - 7 diwrnod yr wythnos

Cwmni cydweithredol di-elw yw Caban Cyf. wedi ei sefydlu i hwyluso datblygiad economaidd cefn gwlad.

Nod Caban Cyf. yw rheoli gweithrediad cynaliadwy sydd yn cynhyrchu incwm drwy ei brif weithgareddau referniw (Caffi Trwyddedig, Ystafell Cynhadledd a Gwasanaeth Argraffu a Llungopio) ac ar yr un pryd i gefnogi busnes lleol (Unedau Busnes Caban) er mwyn creu cyfleoedd gwaith.

Caban, Yr Hen Ysgol, Brynrefail
www.caban-cyf.org caban@caban-cyf.org
01286 685 500 (caffi) 01286 685 462 (swyddfa)





Bosch Service
Car Service



www.a-v-w.co.uk
01286 673559

CIBYN IND EST. CAERNARFON LL55 2BD
SAFON UCHEL Y GALLWCH EI DRYSTIO
ARBENIGWYR AR GEIR SWEDEN A'R ALMAEN
CEIR, CAMPERS A FANIAU



BOSCH Car Service



Gyda

3

- Blwyddyn o yswiriant
- Blwyddyn o wasanaeth arferol
- Blwyddyn o dreth y car
- Blwyddyn o wasanaeth achub
- Blwyddyn o warant llawn

Cofiwch chi y tanwydd!

- Rwan ar gael i ddreifwyr dros 21 oed!

PEUGEOT 208 NEWYDD

Mae'r Peugeot 208 newydd rwan a'r gael yma yn Elim Peugeot. Yn ysgafnach a llai ar y tu allan, ond gyda mwy o le tu mewn mae iddo mwy na digon i ddal y llygaid. A gyda gwasanaeth "Just Add Fuel" sydd ar gael gan Peugeot yn unig, y cwbl sydd rhaid chi gofio ydi'r tanwydd!

Ffoniwch ni heddiw i brofi y Peugeot 208 dros eich hun.

MOTION & EMOTION



PEUGEOT

ELIM PEUGEOT

Parc Bryn Cefni, Llangefni, Ynys Mon Ffon: 01248 750251
www.elimpeugeot.co.uk

Telerau ac amodau llawn ar gael yn y garej neu ar y wefan www.peugeot.co.uk
Y ffigyrau effeithlonrwydd swyddogol mewn milltir y galwyn (l/100km) ac allyriad CO₂ (g/km) ar gyfer 208 yw: Urban 78.4 – 34.9 (3.6 – 8.1), Extra Urban 88.2 – 62.8 (3.2 – 4.5), Combined 83.0 – 48.7 (3.4 – 5.8) a CO₂ 87 - 135



LLWYDDIANNAU PLANT A PHOBL IFANC y pentref yn yr Eisteddfod. Llongyfarchiadau i holl blant a phobl ifanc y pentrefa fu yn cystadlu ac yn cymeryd rhan mewn perfformiadau yn ystod wythnos yr eisteddfod. Bu nifer o blant blwyddyn 5 a 6 yr ysgol yn rhan o'r Sioe Gerdd Ysgolion Cynradd, sef Beca, Ella, Elin, Glain, Cian, Cloe, Angharad ac Anna, roedd y sioe yn wych iawn. Llongyfarchiadau i Osian Trefor ar ei lwyddiant gyda Unawd blwyddyn 2 neu iau a bu Lleisiau Llanbabs hefyd yn cystadlu ar y dydd Mercher.

Bu llwyddiant hefyd i bobl ifanc y pentref mewn sawl cystadleuaeth gyda Ysgol Brynrefail. Llongyfarchiadau mawr i Catrin Elen a Iola Bryn am fod yn rhan o grŵp Dawnsio Disgo a gafodd y wobwr gyntaf yn eu cystadleuaeth hwy. Bu Catrin Llewelyn a Iola Bryn yn rhan o'r grŵp ddaeth yn 3ydd yn y gystadleuaeth Darn Allan o Sioe Gerdd, ac roedd Lee Williams yn rhan o Fand Ysgol Brynrefail a gafodd yr ail wobwr yn eu cystadleuaeth hwy. Llongyfarchiadau mawr i chi i gyd.

LLONGYFARCHIADAU mawr i Osian Trefor Hughes am ddod yn ail ar gystadleuaeth Unawd, blwyddyn 2 ac iau, yn eisteddfod yr Urdd Glynllifon. Da iawn ti.

CYMD EITHAS CYF EILLION EGLWYS CRIST LLANDINORWIG.

Cyfarfu'r gymdeithas ar nos Lun, Mehefin 11eg a dechreuwyd, fel arfer, gyda gwasanaeth byr. Cydymdeimlodd y llywydd, Mrs Rosina Worth, â Mrs Bet Roberts, Rhydfadog a'r teulu oll, yn eu profedigaeth drist o golli Mrs Mair Jones, Llanrug, oedd yn enedigol o Ddinorwig ac yn gyn aelod o Eglwys St.

Mair.

Cyfarfod ar naws gwahanol iawn gawsom y tro hwn gydag ymweliad Mr Geraint Strello o'r Bontnewydd, ynghyd â Fly a Wil, ei gŵn, ac fe'u cyflwynwyd gan y Llywydd. Gwirfoddolwr gyda Chymdeithas Cŵn Chwilio ac Achub (SARDA) yw Geraint a chawsom sgwrs ddifyr iawn ganddo ar sut mae'r gymdeithas yn gweithio a'r ffordd mae'r cŵn yn cael eu meithrin a'u hyfforddi. Ci defaid un ar ddeg oed, profiadol iawn, yw Fly a Wil yn labrador pedwar mis oed - ond yn megis dechrau ar ei yrfa. Cawsom fynd allan o'r Eglwys i wyllo Fly wrth ei waith a syndod i bawb oedd fel y daeth

o hyd i ddilledyn, o eiddo un o'r aelodau, oedd wedi cael ei guddio a hefyd dod o hyd, ar ei union, i berson oedd yn cuddio. Hynny, meddai Geraint, am ei fod yn gallu dilyn arogl dynol a dyna sut mae cymaint o alw amdanynt pan fo person ar goll. Mudiad yw SARDA sydd yn gwneud gwaith rhagorol a phwysig iawn a hynny drwy gynnal eu hunain yn ariannol a thrwy ddibynnu ar garedigrwydd cymdeithasau a haelioni'r cyhoedd, ac roeddem, fel cymdeithas, yn teimlo ei fod yn fudiad gwerth ei gefnogi.

Cafodd pawb baned ar y diwedd, (heb anghofio'r cŵn) oedd yn cael ei weini gan Mrs Rhianwen Jones a Mrs Buddug Hughes ond a oedd yn rhodd gan Mrs Jennie Williams a Mrs Eurwen Roberts. Cafwyd noson hynod ddiddorol, addysgiadol ac, yn bendant, roedd yn agoriad llygaid. Diolchwyd am y cyfan gan Mr Brian Price a diweddwyd drwy gydadrodd Y Gras.

YSGOL SUL UNDEBOL.

Bu plant yr ysgol Sul yn brysur cyn ac yn ystod Eisteddfod yr Urdd yng Nglynllifon. Cafodd y plant gyfle i fod yn rhan o gôr Ysgolion Sul Eryri yn yr oedfa ar y Sul cyntaf yn y pafiliwn. Bu'r plant hefyd yn gwneud gwaith celf i arddangos ym mhabell yr Ysgolion Sul gyda phoster mawr yn dangos rhai o weithgareddau yr ysgol Sul a cafodd pawb gyfle i fynd draw i'w gweld. Dyma lun rhai o'r plant yn mwynhau ym mhabell Ysgolion Sul. Diolch i Beca, Ella, Jac, Gwion, Alis a Glain am fod mor frwdfrydig a gweithgar.

CYDYMDEIMLO. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf at teulu Mrs Glenys Roberts, Maes Gwylfa yn eu colled.

E I S T E D D F O D G A D E I R I O L DEINIOLLEN A'R CYLCH.

Bydd yr Eisteddfod yn cael ei chynnal eleni ar ddydd, Sadwrn 27ain o Hydref, yn Festri Capel Ebeneser, Deiniolen. Mae'r rhestr testunau ar gael mewn siopau lleol a gan aelodau'r pwyllgor. Dewch i gefnogi.

DYMUNA Mrs Mary Catherine Jones, Tan y Caerau, Clwt y Bont ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl anrhegion, cardiau, blodau ac arian a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 90 mlwydd oed.

C Y M O R T H CRISTNOGOL. Casglwyd £650 er budd Cymorth Cristnogol eleni. Diolch yn fawr i bawb a fu'n casglu ac i'r rhai a gyfrannodd.

DYMUNA Osian Trefor, 1 Bron Helen, Clwt y Bont, ynghyd â'i rieni, ddiolch o galon am yr holl gardiau, galwadau ffôn a'r cyfarchion a dderbyniodd ar ei lwyddiant yn cael yr ail wobwr am Unawd blwyddyn dau ac iau yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Eryri yn ddiweddar. Dymuna Osian hefyd ddiolch yn fawr iawn i Nain Lona am ei hyfforddi.

DIOLCHIADAU. Dymuna Mrs Madeline Lovel, Victor, Nigel, Teresa, Raymond, Mandy a Stevie, ddatgan eu gwerthfawrogiad o bob arwydd o gydymdeimlad yn eu profedigaeth o golli mab, brawd, nai ac ewythr, sef Steven. I'r Parch D. John Pritchard am fod yn gefn a chysur i'r teulu yn eu galar. Hefyd i Eirwen, cyfaill, am bob cymorth, ac i'r llu cymdogion am eu hynawsedd hwythau. Diolch hefyd i Mr Gwynfor Jones am drefniadau trylwyr i'r angladd, a Dr William Munroe am ei wasanaeth wrth yr organ.

PADARN LAKE

LLANBERIS (01286) 870260



PRYDAU DA AR GAEL POB DYDD

CANOL DYDD

A GYDA'R NOS

Cinio Dydd Sul (CARVERY) rhwng 12.30 a 3.00 o'r gloch

TE BACH POB DYDD RHWNG 2.30 a 5.00

Cyfleusterau- Bartion • Priodasau ac Achlysuron Arbennig

Gwesty Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277



CYDYMDEIMLAD.

Anfonwn fel ardal ein cydymdeimlad llwyr af hefo Mrs Megan Williams, Paradwys, Gaerwen, a Mr Hefin Goronwy Jones, Glan Ffynnon, Llanrug, yn eu profedigaeth lem o golli ei chwaer, Mrs Mair Jones, Hafan Elan, Llanrug, plant Maes Eilian gynt. Bu farw Mair ar ôl llawer blwyddyn o waeledd. Bu Megan a Hefin yn hynod o garedig hefo hi ar hyd ei salwch. Bu farw ddiweddd mis Mai yn 84 mlwydd oed. Yr oedd y gwasanaeth claddu yn Seilo, Caernarfon, a rhoddwyd ei gweddillion i orffwys hefo'i diweddar wr, Cecil, ym Mynwent Llanbeblig, Caernarfon ar 6 Mehefin. Megan a Hefin, gobeithio y cewch nerth oddi uchod yn ystod y dyddiau tywyll ac anodd yma. Daliwch i greu.

TÂN YN Y CARTREF. Ar nos Sul, 20 Mai, cafwyd tân yn Fron Dirion, pryd y bu i sychwr dillad fynd ar dân. Yr oedd Mrs Margaret Faulkener ar y pryd yn glaf yn Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd, a'i gŵr, Rex, a'i mab, Jeremy, wedi bod yn ymweld â hi yn ystod y prynhawn. Ar ôl dod adref am dri, cychwynnodd Jeremy yn syth yn ôl am Lundain ac fe fu i Rex fynd ati i olchi a'u rhoi yn y sychwr dillad wedyn. Ond yn ddiarwybod iddo fe aeth ar dân a thrwy ryw ddamwain yr oedd un o genod 1 Bro Elidir yn pasio ac fe welodd fwg yn dod allan o'r tŷ. Galwodd yn Fron Heulog hefo Dave a Rita Wood ac, wrth gwrs, fe aeth Rita a Daniel, y mab, yn syth yno ac erbyn hyn yr oedd Gareth Roberts, Fron Deg, Gallt y Foel, yn pasio a rhwng Daniel a Gareth, fe fu iddynt roi y tân allan ond yr oedd y lle yn fwg du ofnadwy a Rex yn ei ganol yn gwrthod yn bendant a mynd allan. Ond, pan gyrhaeddodd y frigad dân fe'i gorfodwyd i fynd allan yn erbyn ei ewyllys. Erbyn hyn yr oedd y paramedic wedi cyrraedd ond doedd fis sôn am fynd i'r ysbyty, er mai yno y dylai fod wedi mynd. Felly doedd dim i'w wneud ond i Rita fynd â fo gartref. Galwyd cartref y mab yn Llundain

ond, wrth gwrs, nid oedd wedi cyrraedd eto a gadawyd neges hefo'i wraig, Christine. Cafodd afael arno yn Birmingham a felly doedd dim i'w wneud ond troi yn ôl.

Bu i Rex losgi ei law yn ddrwg iawn ac ychydig ar ei wyneb. Bu'r frigad dân yno am tua dwy awr a hanner a'r paramedic am beth amser wedyn gan fod Rex yn dioddef o sioc.

Diolch am gymdogion fel Dave a Rita, er nad oedd lle ganddynt bu iddynt fynd allan o'u ffordd i roi lloches a gwely tan dydd Llun i Rex, a bu i'r mab aros yng Nghaernarfon.

Dave, Rita a'r teulu, dyma Gristnogion ac y mae lle i ddiolch am rai fel hyn. Diolch am eich caredigrwydd mawr yn ystod amser pryderus iawn i deulu Fron Dirion oherwydd afiechyd.

P E N - B L W Y D D . Llongyfarchiadau gwresog i Mr Megan Morris, Minffordd, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 97 ar 11 Mehefin. Gobeithio i chwi fwynhau yr achlysur yn fawr gyda'r plant a'ch teulu o'ch cwrmpas. Gobeithio y cewch nerth ac iechyd i fwynhau y flwyddyn sydd o'ch blaen. Pob lwc.

DIWEDD TYMOR. Wel, y mae diwedd y tymor arholiadau yn y colegau a'r ysgol yn y golwg unwaith eto, ac yr wyf yn sicr fod yr ieuenctid yn hynod o falch o weld yr arholiadau o'u hôl. Carem fel ardal ddymuno yn dda i bawb oedd yn eistedd yr arholiadau a gobeithio am ganlyniadau da i chi i gyd ac y cewch fynd ymlaen â'ch addysg fel ag yr oeddych wedi edrych ymlaen i'w wneud.

Gwyliau hapus i chwi i gyd. Gobeithio am dywydd dipyn gwell a dipyn mwy o haul. Pob lwc a hwyl fawr i bawb i'r dyfodol.

CYFARFOD PREGETHU. Fel ag y mae yn arferiad gan eglwys y Bedyddwyr, Sardis, cafwyd Cyfarfod Pregethu yno eleni eto, ond erbyn hyn y mae wedi mynd yn un oedfa yn y prynhawn yn unig. Mae'r Swyddogion i'w canmol am gadw y traddodiad. Daliwch ati.



Tywydd
(Cerdd yn nhafodiaith Dyffryn Peris)

‘Ma’r glaw ‘ma’n eira’n y chwara;
a’r clytia fel talpia o rew...
rhewynt yn rhuo drw’r siedia’...
ond dal ati ma’r hogia glew!

Ma’r gegin ma’n lân a chynnas;
a’r hen gegin heddiw’n o lew...
rhown r’wbath am ga’l bod eto,
acw...er yr eira a’r rhew...

Norman Closs

Y Troellwr Mawr
(Nightjar – neu’r ‘goatsucker’)

Rhown y byd am hwyrnos hudol – a’i rŵn
fel ril ‘sgota rithiol,
ias o goetir ysgytwol –
Ugeiniau o hafau’n ôl!

Norman Closs

L.G. OWEN

PENISARWAUN

GWAITH CERRIG-TIRLUNIO

Gwaith Walio • Gwynebu

Pointio • Gwaith Blocs • Patios

Dreifs • Llwybrau • Gwaith Grafel

Llechi • Ail Wneud Gerddi • Trin Coed

Concretio • Tarmacio • Bloc Pavio • Dreinio

Gwaith Clirio • Ffensio • Decio A.y.b

● Gwaith o safon, Prisïau Cystadleuol ●

Gwasanaeth Cyfeillgar - Gwbwl Yswriedig

CYSYLLTWCH ▶ 01286 870318

NEU ▶ 07896739544

www.gwyneddstonemasonry.co.uk

E. W. Pritchard

CENTRAL GARAGE, Llanberis

Ffôn: (01286) 870202

TREFNWYR ANGLADDAU

● Priodasau ● Dathliadau

● Achlysuron Arbennig ● Cynadleddau

● Pwyllgorau ● Bwydlen Bar

THE LEGACY

ROYAL VICTORIA HOTEL

LLANBERIS

wrth droed yr Wyddfa

Ffôn: 08444 119 003

9



Diolch. Dymuna Miss Rhian Roberts, oedd yn Gymhorthydd Cyfnod Sylfaen yn yr Ysgol, ddiolch i'r staff, plant a'r rhieni am eu caredigrwydd tuag ati wrth iddi adael ei swydd yn yr ysgol yn ddiweddar.

Prosiect Dathlu Pen-blwydd yr Amgueddfa Lechi yn 40 oed. Cafodd Bl 5 a 6 gyfle i fod yn rhan o brosiect i ddylunio gwefan newydd fel rhan o'r dathliadau. Cawsant wahoddiad i fynd i'r Amgueddfa i lansio'r wefan dydd Mercher, 23 Mai. Diolch am y croeso a dderbyniwyd yno.

Llwyddiant. Rydym fel ysgol yn ymfalchio yn llwyddiant y plant yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Eryri. Daeth y Parti Unsain yn gyntaf gan dderbyn beirniadaeth ganmoladwy iawn. Llongyfarchiadau mawr iddynt. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r rhieni am eu cefnogaeth a'u cydweithrediad ynglŷn â'r trefniadau i fynd â'r plant i'r Eisteddfod yng Nglynllifon. Roedd pawb wedi mwynhau

eu hunain yn fawr iawn.

Twrnaint Tennis. Bu rhai o blant Bl 3, 4, 5 a 6 yn cymryd rhan yn y Twrnaint yn y Ganolfan Tennis dydd Mawrth, 12 Mehefin. Roedd pawb wedi cael hwyl yn chwarae yn erbyn timau eraill o wahanol ysgolion. Llongyfarchiadau i Bls ac iau ar ddod yn ail yn eu grŵp.

Ymweld â'r Ysgol Uwchradd. Cafodd Bl 6 gyfle i fynd ar eu hail ymweliad ag Ysgol Brynrefail dydd Gwener, 15 Mehefin. Dymunwn y gorau i Catrin Sara ac Amie pan fyddant yn cychwyn eu haddysg yno ym mis Medi.

Symud Dosbarthiadau. Bydd dydd Mercher, 4 Gorffennaf yn ddiwrnod prysur iawn yn yr ysgol. Bydd pawb yn cael cyfle i symud i fyny i'r dosbarth y byddant ynddo ym mis Medi. Yn ogystal gwahoddir y plant a fydd yn mynychu'r Ysgol am y tro cyntaf yn y dosbarth meithrin yma am y bore. Gobeithio y bydd pawb yn mwynhau'r profiadau yma yn fawr iawn.

Mabolgampau'r Urdd. Cynhaliwyd y mabolgampau ar gaeau Ysgol Syr Hugh Owen

nos Fawrth, 19 Mehefin am 4.30 o'r gloch. Diolch i bawb a gymerodd ran, gyda diolch i'r staff am eu hyfforddi ac i'r rhieni am ofalu am y plant yn ystod y gyda'r nos.

Taith Gerdded Noddedig. Aeth plant y Cyfnod Sylfaen ar eu taith gerdded fore dydd Mercher, 30 Mai. Roedd pawb wedi mwynhau cael bod allan yn yr awyr iach ar fore braf. Bore dydd Gwener, 1 Mehefin, aeth plant CA2 ynghyd â staff a rhywfaint o Gyfeillion yr Ysgol ar eu taith hwy o amgylch Llyn Padarn. Roedd pawb wedi mwynhau treulio'r diwrnod allan yn yr awyr agored, ac yn yr un modd dysgu am yr awyrgylch o'u cwmpas. Hyd yma rydym wedi casglu oddeutu £700 a bydd y swm yma yn cael ei ddyblu trwy garedigrwydd Cwmni Santander. Diolch iddynt am eu cefnogaeth ac i Mrs Avril Jones o Gwm y Glo, cynrychiolydd o'r cwmni am ddod i'r ysgol i weld pawb yn cychwyn ar eu taith.

Cymanfa Ganu yn Eglwys Santes Helen. Cynhelir Cymanfa Ganu i diweddu

gweithgareddau wythnos y Carnifal yn yr Eglwys nos Sul, 15 Gorffennaf am 6.30 o'r gloch. Bydd Côr plant yr ysgol yn cymryd rhan a gwerthfawrogwn gael eich cefnogaeth os gwelwch yn dda.

Mabolgampau. Cynhaliwyd y mabolgampau bawn dydd Gwener, 29 Mehefin am 2 o'r gloch. Cafodd pawb gyfle i fwynhau barbaciw yn dilyn y mabolgampau. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Trip Diwedd Tymor yr Haf. Eleni penderfynwyd cynnal tripiâu ar wahân i'r disgyblion. Bydd Dosbarthiadau Derbyn a Bl 1 a 2 yn mynd i Gelli Gyffwrdd dydd Llun, 9 Gorffennaf. Ar yr un diwrnod bydd Dosbarthiadau 3, 4, 5 a 6 yn cael mynd i Ganolfan Conwy yn Llanfairpwll ble byddant yn cymryd rhan mewn amryw o weithgareddau gwahanol.

Gwyliau Haf. Bydd yr ysgol yn cau dydd Mawrth, 17 Gorffennaf ac yn ailagor i'r plant dydd Mawrth, 4 Medi.

CRONFA PENSIYNWYR.

Pêl Bonws Loteri. Enillydd mis Mai oedd Mrs Peggy Mathews, Fresh Winds. Llongyfarchiadau iddi hi.

YSGOL SUL BOSRA. Fore Sul, Mehefin 3ydd, bu rhai o aelodau'r Ysgol Sul yn cymryd rhan yng Ngwasanaeth Boreol Eisteddfod yr Urdd Eryri. Bu'n brofiad bythgofiadwy iddynt gael ymuno â thros 150 o aelodau Ysgolion Sul Eryri. Diolchir i Mererid Mair am ei ffordd ddihafal o arwain y Côr a'r Gwasanaeth ar y thema 'Cariad'. Diolchir hefyd i'r athrawon a'r rhieni am eu

cefnogaeth ac anogaeth.

Fore Sul, 17 Mehefin, cafwyd cwmni Andrew Settatee o Gynllun EFE. Fe fwynhaodd y plant y gweithgareddau a luniwyd ganddo a chawsant ddramateiddio dameg Y Mab Afradlon. A hithau'n Sul y Tadau, roedd gwersi'r ddameg hon yn werthfawr iawn. Diolch Andrew.

Bnawn Sul, 24 Mehefin, bu'r Ysgol Sul yn cymryd rhan yng Nghymanfa'r Methodistiaid yng Nghapel Seilo, Tregarth. Cymerwyd y rhannau dechreuol gan aelodau Bosra ar y thema 'Grym y Fflam'.

Bydd yr Ysgol Sul yn gorffen ar 8 Gorffennaf ac yn ailgychwyn ar y Sul wedi'r ysgol ddechrau, sef Medi 9fed.

LLONGYFARCHIADAU i Pat a Leslie Larsen, Llygad yr Haul, ar ddod yn hen nain a thaid i Iwan Rhys – mab bach a anwyd i Llinos ac Eurig Druce – wŷr bach i Cai a Lyn a Phil a Margaret, Bethel. Gor-wŷr hefyd i Phyllis Kelly, Caerdydd a Jennie Druce, Trawsfynydd. Llongyfarchiadau i Gethin Phillips ar dderbyn swydd Athro yn Ysgol y Graig, Llangefni. Pob dymuniad da i ti, Gethin.

PEN - BLWYDDI A RBENNIG.

Llongyfarchiadau i Gwenllian Carr ar achlysur pen-blwydd arbennig ar 3 Mehefin.

Dymuniadau gorau i tithau, Siôn Dafydd Phillips ar dy ben-blwydd yn 18 oed.

Anfonwn ein dymuniadau gorau am ben-blwydd arbennig i tithau, Eurgain Haf ar 17 Gorffennaf. Mae Eurgain yn edrych ymlaen yn fisol am yr Eco drwy'r post – gyda chyfarchiad cyfeillgar bob tro gan Olwen, Trefnydd Gwerthiant post.

LLWYDDIANNAU’R URDD. Llongyfarchiadau i ti, Magi Tudur, Gwernhelen, ar ennill y wobr gyntaf yn yr Adran Gelf a thrydydd yn y gystadleuaeth Rhyddiaith.

Llongyfarchiadau brwd hefyd i chi blant y pentref fu’n rhan o lwyddiant Band Brynrefail.

Bu’n Eisteddfod brysur i Lois Eifion – cipiodd ddwy wobr gyntaf ynghyd â hyfforddi ac ennill gyda myfyrwyr JMJ Bangor.

Am yr ail flwyddyn yn olynol daeth Tlws y Parti Unsain yn ôl i Ysgol Gymuned Penisarwaun gyda beirniadaeth aruchel iawn. ‘Dyma oedd perffeithrwydd a’r datganiad yn gaboledig a’r cyflwyniad mor ddisgybledig heb arweinydd. Arbennig iawn, iawn.’ Dyna farn Robat Arwyn a Huw Foulkes, a da iawn, iawn medd pawb ohonom yn y pentref hwn. Llongyfarchiadau i’r hyfforddwyr ac i Ifan Dafydd am gyfeilio. Llongyfarchiadau i bawb ohonoch ac hefyd i bawb o fro’r Eco.

Llongyfarchiadau i Bethanne a Heulwen am hyfforddi’r dawnswyr mor hyfryd yn y prif gystadlaethau. Bu’n Eisteddfod tu hwnt o lwyddiannus a’r cystadlu o safon hynod o uchel.

CARNIFAL Y PENTREF. Gorffennaf 9-15

Dyma drefn gweithgareddau’r wythnos

Dydd Llun, 9fed
Bingo yn Neuadd yr Eglwys am 6.30

Dydd Mawrth, 10fed
Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys am 7.30

Dydd Mercher, 11eg
Mabolgampau ar Gaeau yr Ysgol Gymuned am 6.00

Dydd Iau, 12fed
Disgo yn Neuadd yr Eglwys am 6.30

Dydd Gwener, 13eg
Helfa Drysor i gychwyn o flaen Neuadd yr Eglwys o 6.00 – 6.45.

Dydd Sadwrn, 14eg
Y Carnifal i gychwyn o’r Cartref Nyrsio am 1.00

Dydd Sul, 15fed
Cymanfa Ganu yn Eglwys Santes Helen am 6.30
Hyderir y bydd y tywydd yn ffafriol ac y cawn Garnifal wrth ein bodd.

E I S T E D D F O D BENTREF. Gorffennaf 6ed yn y Neuadd Gymuned i gychwyn am 6.00 Dymunir Eisteddfod lewyrchus eto eleni gyda chystadlu brwd yn yr holl gystadlaethau. Bydd adroddiad manwl yn y rhifyn a ddaw allan ddechrau Medi.

CYDYMDEIMLIR yn ddwys iawn â Brenda Richardson ar golli mam annwyl a gofalus, sef Mrs Eirlys Jones, Gwynant, Bryn Hyfryd. Yr un yw’n cydymdeimlad â Jonathan a Ken, wyrion amhrisiadwy i Eirlys. Bu farw’n dawel yng nghwmni ei theulu yn 85 mlwydd oed. Cynhaliwyd gwasanaeth preifat yn y cartref, fore Mercher, Mehefin 20fed, ac fe’i rhoddwyd i orffwys gyda’i diweddar wr, Nathan, a’i diweddar fab bychan, Kenneth, ym mynwent Eglwys Santes Helen. Ein cydymdeimlad llwyrfa’r teulu oll.

NOSON LAWEN. Cynhelir Noson Lawen gan Gwmni Da yn y Ganolfan, Porthmadog, nos Sadwrn, 7 Gorffennaf. Mae nifer o docynnau i’r noson ar gael gan Elizabeth Jones (ffôn 872421) am £5. Bydd yr elw yn mynd at Eisteddfod Bentref Penisarwaun. Trefnir bws (am ddim) i gychwyn am 6.00 o flaen yr Ysgol Gymuned. Croeso cynnes i bawb, yn cynnwys unrhyw un o bentrefi’r Eco sy’n dymuno dod. Cysylltwch ag Elizabeth neu Ann Ifans (872407). Bydd John Eifion a Theulu Hendre Cennin yn cymryd rhan. Felly bydd arlwy yn ein haros.

RHIFYN NESAF O’R ECO. Daw’r rhifyn nesaf o’r Eco allan ar ddechrau mis Medi, felly cadwch eich newyddion yn ddiogel. Gwyliau hapus a diogel i chi oll.



PWYLLGOR NEUADD. Tynnwyd Clwb Cant Mehefin a’r enillwyr oedd Annie Hughes ac Ann Paterson. Cynhaliwyd Miri Mai nos Fercher, 30 Mai, gyda stondinau, gemau, peintio wyneb, raffl a phaned a bisged. Yn ystod y noson cafwyd cyfle i ddiolch i Pat Larsen am ei gwaith diflino yn gwarchod ein cymuned. Yn wreiddiol o Fangor, dangosodd ddiddordeb mewn gwaith cymunedol yn ifanc iawn. Bu’r Faer Bwrdeistref Arfon, Cadeirydd Cyngor Gwynedd ac aelod o Fwrdd yr Amgueddfa Genedlaethol. Bu’n barod i roi ei chymuned yn gyntaf, gan wrando ar lais y bobl, ateb eu gofynion gan ennill eu cefnogaeth a’u hymddiriedaeth. I dalu eu gwrogaeth i Pat, yn bresennol roedd Hefin Williams, y Cynghorydd nesaf ar Gyngor Gwynedd sydd, fel Pat o’i flaen, yn awyddus i weithio dros drigolion yr ardal gan wrando ar farn y bobl a rhoi’r cyfle i bawb gael ‘dweud eu dweud’. Hefyd, Elfed Williams, Deiniolen; Siôn Jones, Bethel; Aled Green; John Jones a Richard Llwyd Jones. Llywiwyd y noson gan Phyllis Elis, aelod o’r Cyngor Cymuned a Chadeirydd Pwyllgor Rheoli’r Neuadd. Dymunir diolch i’r Parti Unsain o’r Ysgol Gymuned am eu cyfraniad clodwiw a diolchir i Mrs Ash am y deisen hyfryd a gyflwynwyd i Pat gan aelodau ifanc y Pwyllgor Neuadd – Glesni a Tania. Cyflwynodd Elin Roberts dusw o flodau hardd i Pat ac i gori’r noson, darllenwyd cywydd gan Richard Llwyd ar ran Cyngor Cymuned Llanddeiniolen a chyflwynwyd copi ohono wedi’i fframio i Pat. Dymunir ymddeoliad hapus i Pat a Leslie a phob hapusrwydd i’r dyfodol. Hefin Williams a Richard Llwyd yn cyflwyno copi o’r cywydd i Pat Larsen.

I gyfarch a diolch i Pat Larsen mewn gwerthfawrogiad o 45 mlynedd o wasanaeth cyhoeddus ym Mhlwyf Llanddeiniolen.

Cam anodd yw cymwynas,
rhoi i wlad wna’r ‘Bangor lass’.
Un yw’r plant neu henwyr plwy,
rhoes hyder amhrisiadwy
o ofal i’n cynefin,
dod â’i ffydd i warchod ffin.
Â graen, maen i’w chymuned,
hawliau’r gwraidd sy’n sail i’r gred.
Ei rhigol Llanddeiniolen
deilio’r ‘Waun yn dalar wen.
Nid chwit-chwat, Pat oedd y pail
ei horiau rhoes dros eraill.
Ei rhethreg, yw cri’r egwan
aeth â’i llais yn iaith y llan.
Trwy’n oerfel, tarian Arfon,
arwain wnaeth y werin hon.
Cadw’r iaith yw’r gwaith drwy’r gad,
i Wynedd rhoes arweiniad.
Heddiw, gorffwysa’r diwyd
lle bu ei hôl, gwell yw byd.

Ar ran Cyngor Cymuned Llanddeiniolen
Cyng. Richard Llwyd Jones
Mai 30, 2012

Ysgol Brynrefail



Joanna Parry

Hoci Cymru dan 16 oed, 2011-12

Yr ydym yn falch o gyflwyno Gôl-geidwad tîm hoci Cymru 2011-2012, sef Joanna Parry sy'n hanu o Fetws Garmon.

Gwahoddwyd Joanna i dreialon hoci tîm Gogledd Cymru ar ôl chwarae i dîm Ysgol Brynrefail, ac mi gafodd ei dewis i dreialu yn erbyn De-ddwyrain Cymru a De-orllewin Cymru.

Wedi chwarae'n wych yn y treialon gwahoddwyd hi i Wersyll Hyfforddiant tîm Cymru gyfan a gynhaliwyd yng Nghaerdydd. Yn ystod ei hamser chwaraeodd ddwywaith yn erbyn tîm Lloegr.

I ffwrdd â hi wedyn i dwrnaint yn yr Alban a chwarae tair gêm yn erbyn tîm yr Alban.

Hyd yn hyn y mae Joanna wedi bod yn chwarae i dîm hoci Caernarfon ond, o fis Medi ymlaen, bydd hi'n chwarae hoci i dîm Bae Colwyn. A wyddoch chi be? Mae Joanna eisoes yn cael ei noddi gan gwmni Mercian, gwneuthurwyr nwyddau hoci!

Hogan Brynrefs - da 'de



Sglerosis Ymledol

Ar y 3ydd o Fai 2012 bu criw o hogiau Brynrefail, a'u cyfeillion o Ysgol Bodedern, wrthi'n ddyfal yn coginio cacennau yng Ngholeg Menai. Ar ôl iddynt oeri ac wedi eu haddurno â hufen buont yn eu gwerthu o amgylch y Coleg. A rhaid eu bod yn flasus oherwydd gwerthwyd y cwbl a chodi £45 tuag at gefnogi pobl sy'n dioddef o Sglerosis Ymledol.

Fe weithiodd Gerallt Morris, Tomos Griffiths, Matthew Hughes a Lewis Burns yn galed ofnadwy. Hogia Brynrefs - da 'de

“Y byd i’n disgyblion a disgyblion i’n byd”



Llongyfarchiadau Anna

Anna Jones, sydd ar dde'r llun, ac sy'n hanu o bentref Bethel, yn derbyn y tlws 'Chwaraewr Ifanc Mwyaf Addawol' Clwb Pêl-droed Merched Tref Caernarfon yn ystod y tymor 2011/12 ar eu noson gwobrwyo. Hogan Brynrefs – da 'de



Dylunio a Thechnoleg

Bob blwyddyn, tua'r amser yma mae Mr. Berwyn Hughes a Mr Peredur Williams, ychydig yn foelach, ar ôl tywys disgyblion bl 11, 12 a 13, a oedd yn dilyn cwrs Dylunio a Thechnoleg i orffen eu prosiectau ymarferol. Unwaith eto gwelwyd safon uchel o waith yn cael ei arddangos mewn amrywiaeth mawr o brosiectau, o ddalwyr ar gyfer cryno ddisgiau, goleuadau a bocsys gemwaith, i brosiectau dipyn mwy o faint, fel bwrdd coffi a chadeiriau.

Llongyfarchiadau mawr i Deian a Lydia, y gwelwyd eu gwaith yn cael ei roi ymlaen ar gyfer ystyriaeth i'w gynnwys yn yr Arddangosfa o waith arloesol gan ddisgyblion lefel A.



Y Gamp Lawn

Thomas Saynor a Dylan Hughes gafodd y fraint o godi cwpan y Gamp Lawn. Wel, a bod yn hollol gywir, Sam Warburton gafodd y fraint yn gyntaf ond pan ddaeth y cwpan i'r cyffiniau, Thomas a Dylan oedd yn sefyll yn ôl ei droed.

Ymgyrch Goed Cadw

Mi fydd y darllenwyr mwyaf ffyddlon efallai yn cofio i griw o ddisgyblion ysgol Brynrefail blannu clawdd brodorol ar dir yr ysgol 'nôl ym mis Mawrth 2011.

Wel, mi fuodd 'na griw arall yn parhau â'r gwaith eleni. Ar ddydd lau, Mai 24, bu 5 o weithwyr caled blwyddyn 10 wrthi yn ddyfal drwy'r prynhawn, yn plannu dros 30 o goed ar gyfer parhau gyda'r clawdd a gychwynnwyd y llynedd.

Y gweithwyr oedd Lewis Burns, Tomos Griffiths, Izzy Hamilton, Matthew Hughes a Gerallt Morris.


Ymgyrch gan Goed Cadw (The Woodland Trust) yw hwn ac, o ganlyniad, rydym fel ysgol yn derbyn y coed yma am ddim.



Y Goron Driphlyg


A fuoch chi yno? A welsoch chi'r gêm ar y teledu? Faint ohonoch chi gafodd y fraint o gael tlws y Goron Driphlyg yn eich dwylo? Wel, mi gafodd Jamie Stevens, Aled Jones a Gruffydd Williams y wefr o gofleidio'r tlws ac, fel y gwelwch o'u hwyneb, mae'r pleser yn amlwg.

Awduron Lleol.



Yn ystod y mis diwethaf daeth dau lyfr go wahanol i'w gilydd o'r wasg; y naill yn nofel hanesyddol Saesneg, a'r llall yn gasgliad rhyfeddol o lèn gwerin yn ymwneud â'r môr. Awdur yn enedigol o Lanrug yw'r naill, ond iddo fyw y rhan helaethaf o'i oes yng nghanolbarth Cymru. Genedigol o Feirionnydd yw'r llall, ond iddo fyw cyfran dda o'i fywyd ym mhlwyf Llanddeiniolen.

Mae John Glyn Hughes yn enedigol o Lanrug, a mynychodd ysgolion cynradd Llanrug ac uwchradd Brynrefail. Bu'n brifathro Ysgol Uwchradd Llanidloes ym Mhowys am dros chwarter canrif.



Mae ei nofel gyntaf "Glyndwr's Daughter" yn cynnig dehongliad newydd sbon ar y damcaniaethu ynglyn â lle claddwyd Owain Glyndwr. Cafodd ei ysbrydoli i ysgrifennu'r nofel gan waith tri o feirdd – Lewis Glyn Cothi, Llawdden a Ieuan Gyfannedd; tri bardd oedd yn canu clod merch hynaf, anghyfreithlon Glyndwr, sef Gwenllian.

Ychydig o wybodaeth sydd ar gael amdani, ond priododd ffermwr o'r enw Philip ap Rhys. Roeddent yn byw yng Nghenarth, gerllaw'r Pant-y-Dwr presennol, sydd heb fod nepell o Lanidloes. Mae'r beirdd yn ei disgrifio fel cymeriad cryf; un a oedd yn cael ei pharchu o fewn y gymdogaeth.

ardal Llanidloes a dwyrain Powys gael gwybodaeth am gefndir hanesyddol Owain Glyndwr a'i ferch, Gwenllian.

Nid yw enw Dafydd Guto Ifan yn ddieithr o fewn bro'r "Eco", nac ychwaith o fewn Cymru i'r rhai sy'n ymddiddori mewn llên gwerin. Mae'n awdur toreithiog ac yn gasglwr ffeithiau heb ei ail. Cyfrannodd yn helaeth i gylchgronau megis Y Casglwr, Fferm a Thyddyn a Llafar Gwlad, ac y mae yn enillydd rheolaidd yn eisteddfodau Cymru – y rhai pentrefol a rhanbarthol; a dydi'r genedlaethol ddim yn ddieithr iddo 'chwaith!

Rhif 80 yng nghyfres Llyfrau Llafar Gwlad yw "Llên Gwerin y Môr", ac y mae'n gyfrol drwchus o bron i ddau can tudalen sy'n llawn o chwedlau, coelion, dywediadau a thraddodiadau. Ynddi cawn hanes duwiau'r môr, creaduriaid y dwfn, hud a lledrith, môr-forynion a thiroedd hudol tanfor fel Cantre'r Gwaelod.

Ffrwyth ymchwil manwl o dros ugain mlynedd a geir o fewn cloriau'r llyfr, ac y mae'n gyfrol amhrisiadwy i'r rhai ohonoch sydd wedi eu cyfareddu gan swyn y môr a'i donau.



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
alunffred.jones@cymru.gov.uk

Hydynhyn, y tueddiadyw credu fod Glyndwr wedi cael lloches gan ei ferch, Alys, a briododd un o deulu'r Scudamore yn Swydd Henffordd. Ond mae'r awdur yn awgrymu mai gyda Gwenllian y treuliodd Glyndwr ei flynyddoedd olaf, ac mai yn Abaty Cwm Hir y claddwyd ef. Rhaid darllen y nofel i gael y stori'n gyflawn!

Eglurodd yr awdur iddo ysgrifennu yn Saesneg er mwyn i drwch poblogaeth

Cefnogwch ein hysbysebwr

DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson) CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- Pob math o ddodrefn tŷ
- Cegin, 'stafell fyw, llofft
- Prisiau cystadleuol
- Carpedi, Llenni a Lloriau Pren



Hywel Williams
Aelod Seneddol Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
williamshy@parliament.uk



Rownd Lefrith Ddôl Bach,

Gyda diolch unwaith yn rhagor i Gareth Pritchard am hanes o ardal Bryngwyn a Than y Coed; y tro hwn, ei atgofion am werthu llefrith yn yr ardal yn ystod y 1940’au. Mae’r llun, a dynnwyd yn ystod y cyfnod cynnar hwn, yn dangos trol a cheffyl Ddôl Bach ger Castell Bryn Bras. Brawd a chwaer, Gwilym a Doris Williams a welir ar y chwith, a’r ddau ar ganol eu rownd lefrith. Roedd eu tad, Griffith Williams, hefyd wrth y gwaith, ac yn gyfnod pan ddeuai’r cwsmeriaid i gyfarfod y drol gyda jwg neu biser. Doedd dim son am boteli llefrith na rheolau iechyd a diogelwch bryd hynny!

Canaiau neu stên lefrith fawr fyddai ar gefn y drol, a’r llefrith yn cael ei dywallt ohonynt fesul peint. Roedd cyfarfod y rownd lefrith yn gallu bod yn achlysur cymdeithasol hefyd, gyda chymdogion yn cyd-gyfarfod am sgwrs, a chael clywed ambell i stori a ddeuai yn sgil y rownd lefrith.

Pwy yw gweddill y bobl yn y llun? Ar wahan i Doris a Gwilym , gall Gareth Pritchard enwi pawb ond y wraig a’r bachgen bach ar y sêt. Gareth ei hun yw’r llall ar y drol a Wilfred Davies yw’r hogyn bach yn y ferfa. Yr hen wraig yw Mrs Maggie Lloyd Williams, (nain y meddyg esgyrn, Arwyn Evans) ac Eirian Morris yw’r babi bach yn y goats.

Tad Eirian, sef Eric Morris, ddechreuodd werthu llefrith efo fan yn yr ardal, a’i rownd yn cynnwys Cwm y Glo a Llanberis. Byddai hogia Tan y Coed yn ei helpu’n aml ar ddechrau’r 1950’au gyda’i rownd lefrith. Eric Morris, wrth gwrs, sefydlodd Gwmni Bysiau Arvonïa – a’r cyntaf i dalu am gael hysbysebu yn rhifyn cyntaf yr “Eco”.

Gyda diolch i Gareth am y llun a’r wybodaeth; ond beth am weddill ardal yr “Eco”? Oes rhywrai â gwybodaeth neu atgofion am rowndiau llefrith eraill? Anfonwch air.

Y Cyfaill Eglwysig a Theulu’r Bing, Llanberis.

Anita Butler, Llanfairfechan (Williams, Llanberis gynt) anfonodd gopi o’r cylchgrawn eglwysig ar gyfer Tachwedd 1913. Ynddo ceir cerdd goffa – Odlau Hiraeth - i Jane Thomas, Bing, Llanberis gan H.L., Nant Peris. Does gen i ddim gwybodaeth am y bardd hwn neu hon. Oes unrhyw un o’r darllenwyr yn gallu cynnig enw?

Ni ellir dweud fod y farddoniaeth yn aruchel, gyda llinellau fel:

“Jane Thomas, Bing,

A glybu lef, ‘Fry yma dring

I wlad yr hedd, o ganol ing

Y cystudd mawr.’

a

St Padarn sydd

Yn brudd ei bron, yn wleb ei grudd

‘Rôl colli un o deulu’r ffydd.”

ond yn ôl Odwyn, sef golygydd barddol y cylchgrawn, mae “llinellau tlySION a thyner” yn y gerdd.

Flwyddyn neu fwy yn ôl cafwyd hanes teulu’r Bing yn cadw ymwelwyr, ac yn paratoi lluniaeth i’r rhai fu’n cerdded i fyny’r Wyddfa. Y Jane Thomas uchod, gyda’i nith, Lizzie Huntley (sef nain Anita) oedd yn gofalu am y fusutors.

Roedd y teulu’n bur adnabyddus yn Llanberis, ac yn cario’r enw ‘Cornelius’. Roedd meibion Jane, sef Richard, Robert a William yn ei gario fel enw canol, ond ar lafar, cai ei gwtogi i ‘Corni’.

Wrth gwrs, nid dyma’r unig deulu yn Bing. Mae llun o deulu Griffith ac Anne Hughes, Bing yn y gyfrol o hen luniau bro’r “Eco”. Oes gwybodaeth am rai eraill o deuluoedd Llanberis a fu’n byw yma?

CHWILOTA



Trip Ysgol Sul Cynnar i’r Sw.

Pa Ysgol Sul o fewn y fro oedd y gyntaf i gael trip i’r Sw? Wel, mae Sw Bae Colwyn yn weddol ifanc, a dwi ddim yn siwr iawn o oedran Sw Caer. Dyna’r ddau sydd o fewn cyrraedd gweddol hwylus mewn diwrnod. Ond trip i’r sw ym mis Mehefin 1894, a hynny gan Ysgol Sul Annibynwyr Llanberis? Anodd coelio reu bod wedi mentro ar y fath anturiaeth. Ond doedd y siwrnai ddim yn bell iawn, ac mae’n eithaf posibl mai cerdded yno a wnaeth pawb!

Deuthum ar draws adroddiad am y trip hynod hwn mewn rhifyn o’r Herald. Does dim eglurhad ar sut y teithiodd cant a hanner o aelodau’r Ysgol Sul i’r Felinheli, oherwydd yno, ym Mharc y Faenol y cawsant y cyfle i weld llamas, eirth, cangarws, mwnciod yn ogystal â gwartheg gwyllt, defaid duon a cheffylau. Mae’r adroddiad yn dweud eu bod wedi cael cyfle hefyd i weld gyrr o “stacks” hefyd, beth bynnag oedd y rheini.

Crwydrodd pawb drwy’r coedlannau, gan ymweld â’r stablau cyn cerdded drwy’r goedwig i’r mausoleum, lle gorwedd llwch hen sgweieriaid y Faenol. Wrth ddychwelyd, cawsant gyfle i ymweld â’r hen blasdy, a dotio ar yr hen ddodrefn a’r amryw ddarluniau a gedwid yno.

Trwy garedigrwydd Mr a Mrs Assheton Smith, paratowyd byrddau a meinciau mewn un o’r adeiladau allanol, ac o dan ofal Mr a Mrs Owen, Boston House, Y Felinheli, cafodd yr holl aelodau ddau bryd o fwyd, sef cinio a the. Roedd y byrddau wedi eu haddurno â blodau o erddi’r plas.

Yn wir, roedd Mr a Mrs Assheton Smith wedi gohirio taith hwylio er mwyn bod yn bresennol i groesawu’r Ysgol Sul. Diolchwyd ar ran pawb gan y gweinidog, y Parch Evans Owen, a gadawodd y llu yn orymdaith dan ganu emynau’r Band o’ Hope tra’n martsio i lawr y dreif! Diwrnod i’w gofio mae’n siwr!

Gwyddom fod anifeiliaid gwyllt o dramor wedi cael eu cadw ar stad y Faenol am gyfnod, ac y mae lluniau ar gael o rai ohonynt. Ond tybed pa mor gyffredin oedd hi i weision cyflog y Faenol gael gwahoddiad i ymweld â hwy? Ai plant Llanberis oedd y rhai cyntaf i gael trip i’r faenol i weld y ‘sw’? Ai nhw oedd yr unig rai, neu a oedd yn ddigwyddiad gweddol gyffredin? Anfonwch wybodaeth os clywsoch hanes cyffelyb gan eich neiniau neu eich teidiau.

Ty Gwyn, Gwaun Cwm Brwynog.

Daeth cais am wybodaeth ynglyn â lleoliad y cartref hwn. Mae’n ymddangos ar Gyfrifiad 1841, ond yn diflannu wedi hynny. Nid oes son amdano ‘chwaith ar Fap Degwm Llanberis , sy’n dyddio o’r un cyfnod. Symudodd y teulu oedd yn byw yno yn ddiweddarach i Dai Cwm Brwynog. Cysylltwch os oes gennych unrhyw wybodaeth.

A dyna ni am yr haf, os oes rhywfaint ohono ar ôl!

Bydd y golofn yn barod i fwy o ymholiadau ar unrhyw agwedd o hanes y fro, a hynny ar ddiwedd Awst. Cysylltwch â Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. Ffôn: 01286 673515.

Staff yr Amgueddfa Lechi yn dathlu’r deugain





Dymuna Edryd a Louise Sharp ddiolch o galon i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur eu priodas yn ddiweddar. Diolch yn fawr.

DIOLCH. Dymuna Raymond, Val, Gavin, Nia, Emma a Gwyneth ddiolch am yr holl negeseuon a'r geiriau o gydymdeimlad a dderbyniwyd ar ôl eu colled. Diolch hefyd am yr holl gyfraniadau a roddwyd er cof am Ceri tuag at Ymchwil Epilepsi a Chymdeithas Camesgoriad. Dymunant hefyd ddiolch i'r Parchedig Carol Roberts am ei gwasanaeth angladdol a'i geiriau caredig, y Parchedig John Pritchard am ei gymorth; Gwynfor Jones yr ymgymerwr Angladdau am ei wasanaeth trylwyr ac i'r heddwas, Raymod Williams, am ei garedigrwydd a'i gefnogaeth arbennig a gofalus tuag at y teulu yn ystod eu galar.

DIOLCHIADAU

Dymuna Robert ac Eryl Jones, 14 Well Street, Llanberis, ddiolch yn garedig am yr holl alwadau ffôn, cardiau ac yn arbennig am y rhoddion hael a dderbyniwyd yn eu profedigaeth o golli chwaer

a chwaer yng nghyfraith, Jin Pritchard, Y Groeslon. Cyfrannwyd dros £2,500 tuag at Ambiwylans Awyr Cymru a Hosbis Hafan Menai. Diolch o galon.

Dymuna Menai Jones, 6 Stryd y Ffynnon, ddatgan ei diolch am y caredigrwydd a dderbyniodd wedi iddi golli ei chwaer addfwyn yn ddiweddar. **Dymuna** Mrs Annie Wilson Evans (Nan Nan) ddiolch i'w theulu a ffrindiau am yr holl gardiau, anrhegion ac arian, a dderbyniodd ar ei phen-blwydd arbennig yn ddiweddar.

Dymuna Alwyn a Christine Thomas a'r hogiau ddiolch o waelod calon i'w teulu, ffrindiau a'u cymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt ar ôl colli Mam a Nain annwyl, sef Mrs Myfanwy Thomas, Bron Wyddfa, Nant Peris.

Diolch am yr ymweliadau, cardiau, galwadau ffôn a'r rhoddion tuag at Gymdeithas y

Ceri

Daeth newyddion hynod o drist i'n bro yn ddiweddar gyda marwolaeth sydyn ac annisgwyl Ceri Lyn Jones o 3 Coed y Ddôl, Llanberis, yn ddim ond 34 oed, mewn damwain car frawychus.

Magwyd Ceri ar stad Nant y Glyn yn Llanrug a cafodd ei haddysg yn Ysgol Gynradd Llanrug, Ysgol Brynrefail ac Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon. Prif ddileit Ceri yn ystod y blynyddoedd hyn oedd gymnasteg a nofio ac roedd hi wrth ei bodd yn mynychu ymarferion niferus efo'r ddau ddiddordeb. Ar ôl gadael yr ysgol, dechreuodd weithio gyda'i thad yn Swyddfa Post, Llanberis, lle roedd delio gyda'r cwsmeriaid yn ail natur iddi. Yn dilyn cyfnod byr gyda chwmni bysiau KMP dechreuodd ar ei phrif yrfa gyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru ym Mangor. Symudodd i Gaerdydd i barhau i weithio gyda Chyngor Cefn Gwlad cyn symud yn ôl adref yn gynharach eleni i weithio yn adeilad Llywodraeth Cynulliad Cymru yng Nghyffordd Llandudno. Roedd hi'n hapus yn ei gwaith ac ar ei gorau pan yn ymweld â nifer o ddigwyddiadau gwahanol yn rhinwedd ei swydd. Roedd hi yn frwdfrydig iawn dros yr iaith Gymraeg ac yn hynod o falch o'i Chymreictod.

Roedd Ceri yn ail ferch i Raymond a Val Jones, chwaer i Gavin, Nia ac Emma, modryb hoff i Nathan a Leon a nith arbennig iawn i'w hannwyl Anti Gwyneth. I bawb â'i hadwaenai roedd Ceri'n ferch hoffus, boblogaidd a chyfeillgar – a gwen barhaol ar ei hwyneb. Bydd bwlch mawr ar ei hol.

Symudwyd Ceri o'n mysg fel pe symudwyd bywyd y gwanwyn o'n bro.

Deillion, Gogledd Cymru.

L L W Y D D I A N T .

Llongyfarchiadau gwresog i Iwan Wyn Williams, Carling, ar ennill Gradd Dosbarth Cyntaf mewn Cerdd a Chymraeg o Brifysgol Bangor. Mae hefyd yn derbyn Gwobr Parry Williams, gan iddo ennill y marc uchaf am ei draethawd hir ar Hanes Canu Cynulleidfaoel Cymru. Pob hwyl iddo a dymuniadau gorau am ddyfodol llewyrchus.

CÔR MEIBION DYFFRYN PERIS

Mae'r Côr wedi cychwyn ar raglen brysur iawn o gyngherddau/galwadau yn ystod misoedd Mehefin a Gorffennaf. Ar y 12fed o Fehefin

cawsant ganmoliaeth fawr yn dilyn cyngerdd yn Eglwys Sant Ioan, Llandudno ac, ar nos Sul, y 17eg o Fehefin, buont yn cymeryd rhan yn nathliadau Carnifal Deiniolen yn Eglwys Llandinorwig, Deiniolen. Mae dau achlysur arall o'u blaen cyn diwedd y mis!

TE BACH NAIN. Hwyl a sbri yng nghwmni cantorion Bytholwyrdd, gyda phaned a chacennau ar gael. Pryd? dydd Gwener y 6ed o Orffennaf am 2.30 yn Festri Capel Coch. Pris mynediad: £3 wrth y drws neu drwy diced gan aelodau Bytholwyrdd.

Croeso cynnes i bawb. Elw tuag at welliannau yn Capel Coch.

POSH PAWS



TACLUSO CWN
Busnes Newydd Lleol

PRYNHAWNIAU neu NOSWEITHIAU 4-10

DYDD SUL 8YB-4YP
Gwasanaeth Casglu a Danfon

Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
(01248) 671382 • 07565791010

ebost- juliaposhpaws@btinternet.com

ORIEL CWM
Cwm y Glo



Ffôn/Ffacs:
(01286) 872882

Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
Ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan Artistiaid
Lleol

Richard S. Humphreys

H.E. HUGHES

A'I FEIBION

Bwthyn Gadlys

LLANBERIS

Ffôn: 870444



★ Gwerthwr Glo
★ Olew Gwres Canolog
i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

PA ACHLYSUR OEDD YR URDD YN DDATHLU?

Ychydig cyn Eisteddfod Yr Urdd Eryri yng Nglynllifon cefais hyd i lun o griw ohonom yn dangos baner Urdd Gobaith Cymru Fach fel y gelwid y mudiad ers talwm. Ni chofiaf beth oedd yr achlysur ond roeddem yn sefyll ar waelod Allt yr Wyddfa yn y llun. Mae Band Llanberis yno ac Elwyn (Hogia'r Wyddfa) i'w weld yn blaen. Ar y pen ar y dde mae Mam, Rebecca Williams a Mrs Owen mam Nansi a Delia May Parry tu ôl iddi.

Rydw i yn y canol ac rwyf yn adnabod Iona, Rhiannon Wyn, Beti Wyn, Elizabeth Iolen, Norah Munroe, Myra Cae Corniog, Menna Pensarn, Catherine Foulkes, Ralph, Nansi ac Owena. Oes rhywun yn medru enwi mwy neu yn cofio'r dathliad?

Margaret Morris Jones,
Caernarfon



TY GWYDR NEWYDD

Cafwyd grant o £400 gan y cyngor plwyf tuag at dy gwydr a bocsus plannu ar gyfer trigolion Plas Pen gwaith. Diolch yn fawr iawn i Emlyn am ei waith caled yn paratoi'r safle ac adeiladu'r tŷ.

Yn y llun - Rhai o'r trigolion fydd yn cael pleser o dyfu ei ffysiau a'u perlysiâu eu hunain. Yn y cefn, chwith i'r dde, Trystan Tomos (Cadeirydd y Cyngor Plwyf), Emlyn Baylis, Eryl Adlam a Dylan Owen

Blaen - Menai Roberts a Ceren Williams



ORIEL
CWM
Cwm y Glo

Ffôn/Ffacs:

(01286) 872882

Gwasanaeth Fframio

Lluniau o bob math

Ar gael ar y safle

Prisiau Rhesymol

Arddangosfa o luniau

gwireiddiol gan Artistiaid

Lleol

Richard S. Humphreys

Trwsio ac Adnewyddu Dodrefn

Wedi torri darn o ddodrefn?

Hoff gelfi wedi mynd i edrych yn drist?

Cysylltwch â ni i roi bywyd newydd i'ch trysor

Dennis & Julie Jones

01286 650255



GLANHAWR
SIMNE

TRWSIO CORN • GOSOD CAWL

Cysylltwch â Tom Jones
(01286) 881305

WEDI PRYNU BUSNES
Y DIWEDDAR
GWYNFRYNN LLOYD

ARVONIA



- Gwyliau Prydeinig a Chyfandirol.
- Rhaglen Tripiâu Dyddiol.
- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- Cerbyd 7 ac 14 sedd ar gael ar gyfer teithwyr maes awyr ac ar gyfer logi preifat.
- Adran teithiau grwp – yr holl drefniadau wedi'u gwneud: archebiadau gwesty a llong, teithiau, archebiadau theatra digwyddiadau



Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Ffôn: 01286-675175 • Ffacs: 01286-671126

E-bost: info@arvoniaco.uk • Gwefan: www.arvoniaco.uk

ECO'r Wyddfa

O'r Cyngorau Cyngor Cymuned Llanrug

Yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 15fed o Fai:

Cafwyd gyflwyniad gan Ms Menna Jones a Haydn Jones o Antur Waunfawr am yr amryw weithgareddau mae'r Antur yn wneud erbyn hyn, sy'n cynnwys cynllun ail-gylchu dillad.

Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y Cyngor.

* Adroddwyd am gyfarfod gyda Mr Arwyn Williams o Ysgol Brynrefail ynglŷn â phroblem ysbwriel yn dilyn aelodau o'r pumed a'r chweched dosbarth yn treulio amser rhydd ym Maes Chwarae Nant y Glyn. Roedd Mr Williams wedi cael gair gyda chriw y pumed ac wedi eu rhybuddio i fod yn gyfrifol gyda'u sbwriel. Roedd aelod o'r chweched am gysylltu yn fuan i drafod gwneud prosiect fel rhan o'u cwrs BAC a fyddai yn tacio'r broblem sbwriel.

* Adroddwyd fod chwynladdwr wedi ei roi ar hyd llwybrau'r fynwent.

* Adroddwyd bod trefniadau ar gyfer gosod baneri ar hyd y gymuned i groesawu'r Eisteddfod yn mynd yn eu blaen a bod llawer yn awyddus iawn i'w harddangos.

* Mewn cyfarfod gyda pherchennog 51 Nant y Glyn trafodwyd ei ddymuniad i osod ffens yng nghefn ei eiddo ar wal y Cae Chwarae. Dywedodd y byddai yn dod yn ôl at y Cyngor gyda mwy o wybodaeth ar ôl trafod gyda'r cwmni a fyddai'n gosod y ffens.

* Yn dilyn derbyn gwybodaeth nad oedd hawl cynllunio ar gyfer y datblygiad ar safle Dragon Motors, Cwm y Glo, penderfynwyd ysgrifennu at yr Adran Gynllunio yn datgan pryder am y safle.

* Penderfynwyd cysylltu gyda Chyngor Gwynedd ynglŷn â'r angen i gael ochr ar y gwarchodde bws yng Nghwm y Glo, gan fod glaw yn gwlychu pawb sydd ynddo.

* Penderfynwyd gwyllo'r datblygiadau ar safle Brynteg er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio gydag amodau Cyngor Gwynedd.

* Penderfynwyd gyrru llythyr o ddiolch i Mr Goronwy Hughes am ei wasanaeth ar ran y Cyngor dros y blynyddoedd diwethaf.

* Dywedwyd nad oedd safle'r Hen Ysgol yn ddiogel. Nid oedd ffens digonol o amgylch y safle gyda'r nos gyda bylchau mawr o gyfeiriad Ffordd Minffordd. Penderfynwyd cael gair gydag aelodau Tai Gogledd Cymru.

* Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r ceisiadau cynllunio canlynol:

1. Cais am dystysgrif defnydd a chyfreithloni ar gyfer 40 pabell, 4 carafan teithiol tymhorol a 20 o garafannau teithiol - Seiont Riverside Camping, Pontrug

2. Cais i greu mynedfa newydd - Pant Tirion, Ffordd Glanmoelyn, Llanrug.

* Cyflwynwyd a llofnodwyd y cyfrifon terfynol am 2011-12 wedi iddynt eu derbyn yn ôl gan yr Archwilydd Mewnol.

* Penderfynwyd gofyn am gyfrifon cyfredol Cronfa Goffa RH Owen ac enwau'r personau o'r gymuned hon a gafodd gymorth ganddynt cyn gwneud penderfyniad ynglŷn â rhoi grant.

* Adroddwyd fod Merched y Wawr eisiau plannu bylbiau Cennin Pedr Gwawr er cof am ddwy gyn-Lywydd.

* Adroddwyd fod Llewod Llanrug yn awyddus i gynnal sêl cist car yn Nant y Glyn yn ystod yr haf. Nid oedd gwrthwynebiad cyn belled nad oedd y cae yn cael ei ddifrodi.

* Adroddwyd am gyfarfod gyda chwmni Exwavia a oedd yn awyddus i bobl ddod at ei gilydd mewn cynllun cymunedol er mwyn cyflymu gwasanaeth band eang y gymuned. Rhoddwyd pamffledi i bawb oedd â diddordeb.

* Penderfynwyd gofyn i Gyngor Gwynedd ystyried ffyrdd o hwyluso'r olygfa wrth ymuno gyda Ffordd yr Orsaf o Lôn Groes.

* Penderfynwyd ceisio llenwi'r sedd wag ar y Cyngor erbyn 17eg o Orffennaf.



James Griffiths yn cyflwyno'r rhodd i Cledwyn Jones.

Côr Dinas Bangor


Y mae'r Côr yn parhau i ymarfer bob wythnos ac yn paratoi ar gyfer nifer o gyngherddau sydd gennym dros fisoedd yr haf. Cynhelir y cyngerdd cyntaf nos Sul, 24 Mehefin, yn Eglwys y Drindod Sanctaidd, Llandudno. Yn Ngorffennaf bydd y Côr yn eithaf prysur hefo tri chyngerdd sef, 8 Gorffennaf yn Eglwys St. Mair, Betws y Coed; 17 Gorffennaf yn Eglwys St John's Llandudno, ac yna ar 23 Gorffennaf cyngerdd ar y cyd hefo Côr Meibion Mansfield a Chôr Meibion Caergybi yn Eglwys Crist, Llanfairfechan. Bydd elw y cyngerdd hwn yn mynd tuag at Gronfa'r Galon Brydeinig (British Heart Foundation).

Yna ym mis Awst tri chyngerdd yn Llandudno, sef St John's ar 21 Awst, Eglwys y Drindod Sanctaidd ar 26 Awst a 2 Medi. Bydd y Côr yn cael gwyliau yn ystod gweddill Medi cyn ail gychwyn yn yr Hydref.

Ar nos Fercher, 13 Mehefin, yn ystod yr ymarfer wythnosol cyflwynwyd anrheg i Mr Cledwyn Jones, Llywydd y Côr, i ddiolch iddo am ei ffyddlondeb fel Llywydd ar draws bron i chwarter canrif. Yn ei araith ar gychwyn y cyfarfod dywedodd y Cadeirydd, Dafydd Ellis, fod y Côr wedi bod yn hynod ffodus o gael Cledwyn fel Llywydd oherwydd iddo ddangos cymaint o ddiddordeb yng ngweithgareddau'r Côr. Ar draws y blynyddoedd ychydig iawn o wythnosau sydd wedi mynd heibio heb iddo fynychu ymarfer i wrando ar y Côr yn canu.

Dywedodd Dafydd, 'Yn aml iawn ar ôl i Lywydd gael ei benodi, go brin y gwelir o neu hi eto, ond mae Cledwyn wedi bod yn Llywydd go iawn gan ymddiddori yn holl fywyd y Côr.' Yr oedd Mr Jones wedi dweud ei fod am roi'r gorau i fod yn Llywydd eleni ond nid oedd y Côr am dderbyn hynny ac fe'i gwnaed yn Llywydd am oes. Cyflwynwyd rhodd o gloc wedi cael ei wneud o lechen Dyffryn Nantlle i Mr Jones - pwrpasol iawn gan ei fod yn un o hogia' Talysarn - gan James Griffiths, Arweinydd y Côr a chyn-ddisgybl iddo yn Ysgol Ffariars yn dyddio yn ôl i 1953! Daeth nifer dda o'r Côr i'r cyfarfod hwn, sydd yn dangos y parch mawr sydd gan yr aelodau tuag at ein Llywydd.

Ar nos Sul, 24 Mehefin, canodd y Côr mewn cyngerdd yn Eglwys y Drindod Sanctaidd, Llandudno. Yn ystod Gorffennaf, Awst a Medi bydd gan y Côr nifer fawr o gyngherddau, yn enwedig yn Llandudno a Betws y Coed.



**GWYNANT
PIERCE**

Cynyrchion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG

Ffôn: (01286) 674183
(0589) 899901

GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTION • PRIODASAU
PEN-BLYWDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLLIAU

**RHOSTIO
MOCHYN**
AR GYFER
POB ACHLYSUR

* Cig o ffermydd lleol
* Partion rhwng 40 a 400!
* Gyda saws afal a stwffin mewn
rholiau
* Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!
Cysylltwch â
JOHN BRYNAFON
LLANRUG

Y DYN CIG = 675190 / 673188
Ffôn symudol: 07798 718188
Gwefan: www.ydyncig.co.uk



www.fframio.com

FFRAMIA
Parc Padarn, Llanberis
(01286) 870922

www.fframio.com

Gwasanaeth Fframio Lluniau

Dewis eang o luniau yn yr Oriel ac ar y wefan
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy.



Dau Hen Steddfotwr Mewn Swyddi Newydd

Meirion Macintyre Huws o Glynog Fawr a Dana Edwards o Aberystwyth yw Swyddogion Datblygu newydd Cymdeithas Eisteddfodau Cymru. Dechreuodd y ddau ar ei swyddi, y naill gyda chyfrifoldeb am eisteddfodau lleol y Gogledd a'r llall am eisteddfodau lleol y De ar Fehefin 2ail. Mae'r ddau yn hen gyfarwydd â steddfota mewn un ffordd neu'i gilydd. Mae'r Prifardd Mei Mac, wrth gwrs, yn wyneb cyfarwydd ledled Cymru yn dilyn cipio Cadair yr Eisteddfod Genedlaethol yn 1993, fel aelod o dim Y Tywysogion, Talwrn y Beirdd, Bardd Plant Cymru 2001-2, arweinydd aml i Sgwad Sgwennu ac fel bardd sydd a galw mawr amdano i arwain gweithdai mewn ysgolion. Ym myd eisteddfodau lleol y mae diddordeb Dana.

Un o'i hatgofion cynharaf yw bod ar lwyfan Eisteddfod Pencader, pentref yng ngogledd Sir Gâr lle'i magwyd hi. Ers hynny mae wedi cystadlu'n gyson fel aelod o amryw gorau a grwpiau llefaru. Yn ddiweddar bu'n gwneud ychydig o feirniadu mewn eisteddfodau bach gan gael y cyfle i brofi eisteddfodau o ogwydd go wahanol. Mae hwn yn gyfnod cyffrous i Gymdeithas Eisteddfodau Cymru fel y dywed y Cadeirydd, Megan Jones: "Ar ôl cyfnod o fethu cyflogi swyddogion i hybu gwaith y gymdeithas rydym yn ofnadwy o falch o sicrhau arian gan Lywodraeth Cymru a fydd yn ein galluogi i roi mwy o gefnogaeth i eisteddfodau lleol. Mae'n gyfnod heriol – mae angen denu mwy o gystadleuwyr, mwy o gynulleidfaoedd a mwy o'r cyhoedd i weithio ar y pwyllgorau sy'n trefnu'r 120 o eisteddfodau bach a gynhelir drwy Gymru. Ein gobaith hefyd yw gweld eisteddfodau newydd yn codi ac yn ffynnu." Mae Mei Mac a Dana yn amlwg yn edrych ymlaen at yr her. "Does dim rhaid i bob eisteddfod a phob cystadleuaeth fod yn rhai traddodiadol" medd Dana, "mae lle i gystadlaethau newydd a fydd yn denu gwahanol gystadleuwyr a chynulleidfaoedd yn ogystal â rhoi boddhad i'r cynulleidfaoedd traddodiadol.

Mae angen edrych ar ddiddordebau bobl mewn gwahanol ardaloedd a darparu cystadlaethau arbennig ar eu cyfer." Ychwanega Mei Mac "Mae'r gymdeithas yn barod wedi bod yn trefnu gweithdai cloccio a chanu gwerin, ac mae'n fwriad gennym ehangu hyn i feysydd eraill, fel llên, arlunio a ffotograffiaeth. Mae ein heisteddfodau lleol yn hanfodol bwysig i ddyfodol ein diwylliant. Hebddynt byddai'r brodwaith cyfoethog sydd gennym yn syrthio'n ddarnau. Rwy'n edrych ymlaen at weld y Cymry'n troi'n ôl at weithgareddau lleol, gwyliau ac eisteddfodau bychain er mwyn cadw'r cyfan yn beth byw a bod gennym ddiwylliant y gallwn ei ddathlu bob wythnos yn hytrach na dim ond mewn gwyliau cenedlaethol unwaith neu ddwywaith y flwyddyn. Heb eisteddfodau lleol does dim diben cynnal eisteddfod genedlaethol yn fy marn i."

Os hoffech chi fod yn rhan o fwrwm eisteddfodau bach Cymru – un ai drwy gyfrannu at eisteddfod sydd eisoes yn bodoli, neu drwy sefydlu eisteddfod newydd mae croeso i chi gysylltu â Mei (meimac@btinternet.com/07887654251) neu Dana (dana.edwards@hotmail.co.uk/07814145436) neu ymwelwch â gwefan Cymdeithas Eisteddfodau Cymru www.steddfota.org Elusen gofrestredig sy'n cael ei rhedeg gan bwyllgor gwirfoddol yw Cymdeithas Eisteddfodau Cymru. Fe'i ffurfiwyd yn 1998 a'i phwrpas yw cefnogi a hybu eisteddfodau lleol ledled Cymru. Mae tua 120 o eisteddfodau lleol yng Nghymru gyda 100 ohonynt yn aelodau o'r Gymdeithas. Mae dros 30,000 o bobl yn cyfranogi at yr eisteddfodau hyn. Mae'r gymdeithas yn cyhoeddi cylchlythyr 'Steddfota' yn rheolaidd.

Tipyn o Dechnoleg

Rhyw sôn am wahanol agweddau ar dechnoleg fydda i yma, ond technoleg a fydd o ddefnydd bob dydd i chi.

Mae cymaint ohonom gyda sawl cyfrifiadur erbyn hyn mae'n anodd cofio be di be ar y gwahanol rai. Un neu ddau yn y cartref, un yn y gwaith, ffôn smart gan rhai ac iPad neu ddyfais tebyg.

Sut mae cadw trefn ar eich ffeiliau rhwng rhain i gyd? Sut mae rhannu ffeiliau, lluniau, fideos a gwaith rhwng y rhain i gyd a hefyd rhannu gyda teulu a ffrindiau?

Un ffordd hawdd iawn ydy defnyddio darn o feddalwedd o'r enw Dropbox. Mae Dropbox yn gweithio gyda Windows, Mac, Linux, iPad, iPhone, Android a'r Fwyaren Ddu.

Cewch gadw unrhyw ffeil yn y Dropbox sydd ar eich dyfais ac fe fydd hefyd yn cael ei gadw yng ngwefan ddiogel Dropbox. Bydd eich ffeiliau bob amser ar gael o wefan Dropbox a cewch 2GB o Dropbox am ddim, gyda thanysgrifiadau hyd at 100GB.

Ffordd hawdd a syml o gael copi wrth gefn o'ch ffeiliau, ond gallwch wneud cymaint mwy.

O newid unrhyw beth ar un o'ch cyfrifiaduron ac yna ei gadw fel arfer bydd y ffeil yn cael ei chadw yn syth yng 'nghwmwl' Dropbox fel y gallwch ei llwytho i unrhyw ddyfais arall gyda'r newidiadau wnaethpwyd.

Cewch rannu ffolderi gan ganiatáu pobl i weithio gyda'i gilydd ar yr un prosiectau a dogfennau. Fe welwch newidiadau pobl eraill yn syth. Gallwch greu orielau lluniau i'w gweld gan unrhyw un o'ch dewis. Cewch anfon linc i unrhyw ffeil yn eich Dropbox i unrhyw un o'ch dewis sy'n llawer gwell na defnyddio e-bost. Felly gallwch rannu ffeiliau mawr hyd at faint eich Dropbox.

Ewch am dro i <https://www.dropbox.com/features> i gael gwybod mwy.

Y tro nesaf – sut i drin a gwella eich lluniau camera'n hawdd, syml ac yn rhad

DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson) CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- Pob math o ddodrefn tŷ
- Cegin, 'stafell fyw, llofft
- Prisiau cystadleuol
- Carpedi, Llenni a Lloriau Pren

Blodau
Racca


(ALWYN A SARAH JONES)

Ffôn: 870605

- Basgedi Planhigion
- Planhigion Gardd
- Basgedi Crog
- Hefyd, Compost ar werth

RHODD O'R GALON
YW BLODAU

Mae'n rhaid i mi siarad
hefo rhywun



Y SAMARIAID
(01248) 674985



CLWB 300. Enillwyr y Clwb 300 am fis Mai oedd £30: Mrs E. Pierce, Bryngwyn; £20: Mrs Gladys Greasley, Minafon; £10: Mrs Bethan Thomas, Ty'n Llan.

SEFYDLIAD

Y MERCHED. Mewn cyfarfod o'r Sefydliad a gynhaliwyd ar 7 Mehefin, croesawodd Catherine Jones y Parch Tegid Roberts a'i wraig, Nant, i roi sgwrs i ni ar eu profiadau ym Mhatagonia. Aeth y ddau yno am flwyddyn, Mr Roberts fel gweinidog a Mrs Roberts fel athrawes. Trwy ddangos sleidiau roedd Mr Roberts wedi gallu rhoi cefndir o hanes y wlad ynghyd â lluniau o'r gwahanol gapeli yr oedd wedi gweithio ynddynt. Roedd Mrs Roberts hefyd wedi cael amser pleserus iawn yn dysgu yn rhai o'r ysgolion. Y ddau yn amlwg wedi mwynhau eu hunain yn fawr iawn. Diolchodd y Llywydd iddynt am bawn diddorol iawn. Cafodd trefniadau eu gwneud ar gyfer y Diwrnod Rhyngwladol sydd i'w gynnal yn Llanberis ar 30

Mehefin, a hefyd ar gyfer y Trip ar Orffennaf 4. Enillodd Alice y raffl oedd wedi ei roi gan Carol.

DIOLCH. Dymuna Meira Turner, Collfryn, ddiolch i'w theulu a'i ffrindiau am y dymuniadau da a'r cardiau a dderbyniodd ar ei phen-blwydd arbennig. Diolch am y syrpreis ac i Jane am y gacen ben-blwydd gwerth chweil.

Anfonwn ninnau ein cyfarchion atoch, Meira, ac achlysur dathlu eich pen-blwydd arbennig.

EISTEDDFOD

YR URDD. Llongyfarchiadau i bob un o'r pentref fu ynglŷn â gweithgareddau'r Eisteddfod yng Nglynllifon, yn cystadlu ac yn cymryd rhan yng ngweithgareddau gyda'r nos.

Roedd dwy o'r pentref, Meg Dafydd a Iola Ynyr, yn feirniaid yn y prif gystadlaethau ac hefyd roedd Iola wedi bod yn brysur gyda'r Sioe Ieuenctid, 'Sbri'.

BABANOD

BACH NEWYDD. Llongyfarchiadau i Richard a Siân, Arfryn, ar

enedigaeth merch fach, Cadi Anest, chwaer i Math. Croeso i'r teulu i'w cartref newydd yma yn y Waun.

Mab a anwyd i Rhian a Dilwyn, Gorwel y Môr. Daeth Tomos Wyn yn frawd bach i Noa a Llio.

LLONGYFARCHIADAU

i Mrs Sheila Roberts, Llwyn Celyn, ar ddod yn hen nain i Ela, merch fach a anwyd i'w hwyres, Gwen a Steve, a chwaer i Guto a Lois.

LLONGYFARCHIADAU

hefyd i Roy ac Eirwen Jones, Cynefin, ar enedigaeth ŵyr bach, mab i Kayleigh a Ben a brawd i Noura Gwen. Bydd tipyn o ffordd i deithio o'r Waun i weld y teulu bach yn Seland Newydd.

ADREF O'R YSBYTY.

Dymunwn wellhad llwyr a buan i Eurwyn Thomas, Stad Tref Eilian a Cendric Evans, Lleiflor, wedi i'r ddau orfod treulio cyfnod yn yr ysbyty.

PROFEDIGAETHAU.

Anfonwn ein cydymdeimlad

dwysaf at Tom Tomos a theulu Ty'n Llain yn eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl iddynt, sef Mrs Myfanwy Thomas o Nant Peris, a oedd â chysylltiad â phentref y Waun.

Cydymdeimlwn yn ddwys â John a theulu Pant Teg yn eu profedigaeth o golli tad a thaid annwyl iddynt. Dymuna John, Pant Teg a'r teulu ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt ar farwolaeth tad, taid a hen daid annwyl, Mr Jack Chambers Roberts, Y Gaerwen.

Daeth profedigaeth i ran Bearnard Parry a theulu 1 Bryn Golau. Cydymdeimlwn â chi yn eich colled drist o golli chwaer a modryb annwyl.

RHIFYN NESAF YR ECO.

Diwedd mis Awst/dechrau Medi y daw'r rhifyn nesaf o'r Eco o'r wasg. Dymunwn wyliau haf braf i chi i gyd. Cofiwch, os y bydd gennych newyddion neu gyfarchiad yr hoffech ei roi yn yr Eco, dowch â fo i mi.

MERCHED Y WAWR

Cafwyd noson i'w chofio ar 28 Ebrill wrth gynnal noson 'Pawb a'i Thrysor' pan ddaeth nifer o aelodau'r gangen ag eitemau oedd yn werthfawr iddynt am amryw o resymau, a siarad amdanynt am ychydig funudau. Cafwyd amrywiaeth eang o eitemau a dyma flas yn unig ohonynt: llythyrau aelod teulu a gollodd ei fywyd yn y Rhyfel Byd Cyntaf; cudyn o wallt plentyn bychan a gadwyd mewn darn o emwaith i gofio amdano; bocs gwnio a deithiodd i America ac yn ôl; gwisg o frethyn Cymreig oedd yn gynnyrch gweithdy yn y pentref; llun hyfryd o ferch annwyl un o'n haelodau a gollodd ei brwydr yn erbyn salwch creulon eleni. Ac, wrth weld yr eitemau a'u gweld yn mynd o law i law o gwmpas y cylch cawsom ein hatgoffa mewn modd trawiadol o'r pethau sy'n bwysig mewn bywyd, cwlwm cariadus teulu, cyfeillion a bro. Dyna, heb os, yw ein gwir drysorau. Cafwyd noson arall wirioneddol arbennig ar Fehefin 1af pan gawsom fynd i Galeri i weld sioe uwchradd

Eisteddfod Genedlaethol Urdd 2012, 'Sbri', a gynhyrchwyd gan Gwmni'r Frân Wen ac a gyfarwyddwyd gan ein Llywydd, Iola Ynyr. Cawsom ddwy awr o bleser pur wrth wyllo'r sioe hwyliog, egniol hon, oedd yn llawn bwrllwm, dawnsio, caneuon a hiwmor. Roedd y cyfan yn dyst i ddawn ac ymroddiad pobl ifanc Eryri ac yr ydym yn llongyfarch yr holl gast, y cerddorion, Iola a Chwmni'r Frân Wen ar y misoedd o waith caled a greodd y sioe gwbl arbennig hon. Bydd ein tymor yn dirwyn i ben cyn hir gyda thaith i Ben y Pas a bwyd mewn caffi yno. Carwn ddiolch i'r pwyllgor am eu gwaith caled yn darparu rhaglen amrywiol a difyr iawn i ni, yn enwedig ein Llywydd, Iola Ynyr; ein Trysorydd, Mrs Pat Parry ac, wrth gwrs, ein Ysgrifennydd, Mrs Heulwen Huws, sydd wedi trefnu pob dim mor effeithiol a diffwdan, yn ôl ei harfer. Croeso i aelodau presennol a newydd i'r tymor newydd a fydd yn dechrau ym mis Medi. Rhagor o fanylion i ddilyn.

APÊL

At Drigolion Y Waunfawr

Yn weddol aml daw rhai o drigolion y Waunfawr ataf i holi a oes modd ailgychwyn y Gymdeithas Lenyddol a fu mor hynod o lewyrchus yn y pentref rai blynyddoedd yn ôl, yn sgil brwdfrydedd y diweddar D. Idris Jones, a pheth dilyniant gobeithio gennyf fi fel Ysgrifennydd, a'r diweddar Stanley Williams.

Heb os, yr oedd denu cynifer â 70 o aelodau yn ganmoladwy ac, wrth reswm, fwynhau y cyfarfodydd ac elwa ar glywed rhai o enwogion y genedl yn traethu yn fisol a'r trip a'r wledde ar derfyn pob tymor. Cyfnodau i'w mwynhau heb os.

Erbyn hyn, rydw i, er bod yn gyn-Ysgrifennydd, wedi cyrraedd oedran sydd yn rhwystro ceisio ailgychwyn y Gymdeithas, ac felly pwrpas y llythyr hwn yw apelio at rai ifancach na mi i ddod at ei gilydd ac ailgychwyn cymdeithas oedd yn dod â thrigolion y Waunfawr (a rhai o'r pentrefi cyfagos yn ogystal) at ei gilydd a chreu unwaith eto ysbryd cymunedol a chanmoladwy.

Mae sawl un o'r oedolion (sylwer) yn awyddus i ailgychwyn y Gymdeithas Lenyddol, ac un awgrym yw cynnal y cyfarfodydd yn y prynhawn, gan mai pobol wedi ymddeol oedd, ac a fyddai, yr aelodau o bosibl. Pam lai, ond 'does ond gobeithio fod rhywrai yn barod i fentro trefnu rhaglen ar gyfer torri misoedd hir y gaeaf, fel cynt.

Cofier i Glwb yr Henoed ddod i ben yn y Waunfawr, hefyd yr Eisteddfod a'r Gymdeithas. Oes rhywun neu rywrai yn barod i geisio dod â pheth adfywiad diwylliannol yn ôl i'r pentref, a hynny ar fyrder?

Rol Williams



Problem gyda'ch cyfrifiadur?

Am wasanaeth cyfeillgar i ddatrys a gwella eich cyfrifiadur cysylltwch â Gomer Roberts
Ffôn : 01286 870462
Symudol : 07962 712368

Cymorth a hyfforddiant amyneddgar i bob oedran er mwyn i chi fedru mwynhau defnyddio eich cyfrifiadur!



Ar ben arall i'r lein

Siomedig go iawn yw'r tymor wedi bod hyn yn hyn, tydi'r tywydd o bosib ddim wedi bod o gymorth gyda chawodydd o eira yn disgyn ar Lyn y Dywarchen yn nechrau Mehefin. Ar y llaw arall, o ganol y mis mae digon o ddŵr wedi bod o gwmpas ond does dim pysgod wedi cymryd mantais ar y llifogydd i amlygu eu hunain yn unai y Seiont, Gwyrfaï na'r Llyfni. Rwyf wedi rhoi tipyn o amser ar y Seiont heb weld unai sewin neu eog, a tydi peth fel hyn ddim yn argoeli'n dda o gwbwl. Mae sefyllfa fel hyn yn gyfrifol am y nifer fawr sydd heb ymaelodi dros y ddau dymor diwethaf. A dweud y perffaith wir, mae'n edrych yn fwy a mwy tebygol y bydd yn rhaid edrych ar ddod â rhannau o'r Gymdeithas i ben. Does dim os mai problemau Llyn Padarn sy'n gyfrifol am yr holl drafferthion. Dim pysgod a llygredd ar y dyfroedd yn golygu fod 'sgotws' yn cadw eu harian yn eu pocedi, felly, heb aelodau does dim arian yn dod i mewn. Dim pysgod yn golygu fod dim gwerth ar hawliau pysgota ond, yn anffodus, mae prydlesau wedi eu cytuno, rhai ohonynt ddeg mlynedd yn ôl pan oedd pawb yn edrych ymlaen i weld ein dyfroedd yn gwella yn dilyn problemau'r '90au. Ond fel sy'n amlwg heddiw, dal i ddirywio

mae pethau.

Hefyd yn rhan o'r cynllun, eto yn rhedeg o'r '90au, oedd prynu tiroedd a oedd yn ffinio ar afonydd, i sicrhau fod rhai rhannau o'r dyfroedd yn aros yn wyllt. Hyn i adael i goed a blodau gwyllt dyfu yn ddirwystr, fel y byddai adar a bywyd gwyllt yn gyffredinol yn cael noddfa. Rhan o bryniant o'r math oedd tir sy'n rhedeg o gae chware Ysgol Brynrefail, Llanrug, i'r Afon Seiont. Mae'n sicr fod y rhan fwyaf o ddisgyblion presennol a chyn-ddisgyblion yr ysgol yn gwybod yn iawn am Llyn Doc's. Fel rhan o'r pryniant yma oddi wrth Gyngor Gwynedd fe gytunwyd fod y clwb i godi ffens derfyn, yn anffodus roedd y cymal yn dweud fod y ffens yma i fod at fodd prisiwr y sir. Dim problem yn 1996, wrth gwrs, ond problem enfawr yn 2012. Beth amser yn ôl fe aeth disgybl o'r ysgol i drafferthion ar ôl mynd at yr afon, ac mae llywodraethwyr yr ysgol yn mynnu fod eisiau codi ffens 2.4 medr o uchder i atal disgyblion rhag mynd i lawr at Llyn Doc's. Fy hun, rwy'n credu y fyddai eisiau codi clawdd brics tipyn uwch i atal neb fynd o gae'r ysgol at yr afon. Wrth gwrs, mae'r Gymdeithas yn cefnogi unrhyw fater sy'n diogelu ein

pobl ifanc, ond i ni fel clwb ar y funud gyda holl broblemau Padarn, does dim dwy geiniog i dalu ein rhenti heb sôn am wario oddeutu £10,000 am ffens.

Mae nifer wedi codi'r pwynt o ddiffyg rhan-ddaliadau yn yr ardal. Wel, yn y fan yma mae tua 4 erw y byddai'n hawdd eu haddasu i wneud menter o'r fath. Mi fuasai'n bosib wedyn cael arian at godi ffens ond, yn ôl pob golwg, mae'r ysgol yn erbyn menter o'r fath a drwy hyn yn hollol benderfynol i yrru'r Gymdeithas i'r wal. Cofiwch dyma glwb 'sgota sydd mewn bod ers dros 100 mlynedd ac yn rhoi pysgota rhad i holl drigolion y fro. Mae'n debyg na fydd hyn ddim yn bosib os na fydd rhyw ffordd o gael dealltwriaeth â'r ysgol.

Tra rwyf ar gefn fy ngheffyl, yr unig gorff arall sydd wedi gwrthod cydnabod trafferthion presennol y Gymdeithas yw Stad y Goron. Rwyf wedi ysgrifennu at y pen dyn yma ac efallai y bydd o wedi dylanwadu ar ei swyddogion i dderbyn ein problemau. Rwy'n ddigon ffyddiog y bydd yn bosib cydymffurfio â phawb pan fydd problemau Padarn wedi ei setlo, ond ni chawn unrhyw oleuni ar hyn tan yr Hydref, felly, i chwi lywodraethwyr Ysgol Brynrefail, Prisiwr y Sir a Stad y Goron, rhowch amser i'r problemau yma gael eu goresgyn, neu mi fydd rhywbeth gwerthfawr iawn, sef rhan o etifeddiaeth ein plant, wedi ei golli am byth. Gyda'r holl broblemau sydd yn ein wynebu, mae rhai yn ceisio

manteisio ac yn peidio ymuno â'r clwb ac yn troi allan i 'sgota ar Llyn Padarn. Canlyniad i ymddygiad fel hyn, wrth gwrs, yw y bydd estron yn eu tro yn dod i reoli ein dyfroedd a fydd dim 'sgota rhesymol i'w gael wedyn. Os dyma yw eich dymuniad yna ffwrdd a chwi a cariwch ymlaen.

Bydd gwaith yn dechrau ar y Gwyrfaï ym Metws Garmon i dynnu'r hen lwybr pysgod sydd yn rhan o'r hen waith tynnu dŵr. Rhan nesaf o geisio uwchraddio'r Gwyrfaï fydd ail wneud y llwybr pysgod sy'n rhan o argae Llyn Cwellyn, bydd y gwaith yma yn hwyluso llwybr yr eog a'r sewin unwaith eto i Llyn y Gadair. A hen bryd hefyd ar ôl blynyddoedd maith o ymdrech. Does dim dwywaith mai'r sbardun i'r gwaith yma oedd Comisiwn Ewrop, yn dilyn iddynt ddynodi'r Gwyrfaï fel rhan o'u cynllun cadwraeth. Beth am y Seiont Ewrop!

Rhwng 27 Gorffennaf a 20 Awst mae cyfnod 'blas ar sgota' drwy'r wlad. Cyfle i deuluoedd flasu'r grefft yw'r bwriad. Os oes diddordeb yn hyn gadewch imi wybod er mwyn dechrau trefnu. Dwi'n meddwl fy mod wedi bod yn pregethu digon am y tro. Mae'n fwy na thebyg y caf aml i bwriad am feiddio sôn am Ffens Cae Brynrefail, ac efallai bydd yn rhaid imi gael breichiau hirach nag a ddangoswyd yn yr Eco diwethaf. Os byddaf mor ffodus â bachu eog, wel bydd yn rhaid cael breichiau hirach byth. Hwyl am y tro Huw Price Hughes.

AGORIAD SWYDDOGOL

Yn anffodus fe fydd yr Eco wedi ymddangos cyn agoriad swyddogol ystafelloedd newid newydd clwb pêl-droed Llanberis. Bu cryn edrych ymlaen, o'i gyplysu â'r dyrchafiad diwedd tymor diwethaf. Mae'n siŵr bod nifer o hen chwaraewyr/ pwyllgor/ cefnogwyr wedi cael modd i fyw. Yn sicr, mae gan y clwb lu o hanes llwyddiannus i'w groniclo. Cofio gemau, cyd-chwaraewyr, ambell reff, 'blydi goli Llechid'... dyna yw naws y gêm ryfeddol hon ar bob lefel. Gall y clwb hefyd ymfalchio yng nghyfraniad sawl unigolyn. Mae'n siŵr na redwyd unrhyw glwb 'amatur' mor broffesiynol â chlwb Llanberis. Addas oedd gwahodd Twm John Roberts i gyd-agor y cyfleusterau 'moethus' ar y cyd ac Alun Fred Jones.

Hefyd y gwahoddiad rhyfeddol i chwarae tim Sporting Velletri o'r Eidal. Pa well sbardun i dîm y tymor nesaf na chynnig 'return fixture' iddynt os ceir llwyddiant!

Un peth sy'n sicr o newid ar ochor y cae, mewn hen 'Nissen hut' neu hen swyddfeydd o waith Dinorwic, yr un fydd braint y chwaraewyr fu'n brasgamu o'r 'moethustra' i gynrychioli y tîm a'r traddodiad rhyfeddol sy'n llinyn arian drwy hanes clwb pêl-droed Llanberis. Fel un gafodd ddau dymor yno, dymuniadau gorau – a mwynhewch y dŵr poeth!

FFUG BERTHYN?

Mae cricedwyr ledled y wlad yn gofyn pryd mae'r haf am gyrraedd. Am y tro cyntaf, dinistriwyd ymweliad Morgannwg â Bae Colwyn, er cafodd y dorf llai nag arfer weld buddugoliaeth yn erbyn Durham yn y gystadleuaeth 40 pelawd yr un.

Dieithr iawn yw'r enwau yn 'nhîm Cymru' erbyn hyn. Mae Wil Owen yn chwifio baner y gogledd, a Robert Croft – am ba hyd – yn chwifio baner Cymreictod.

Cafwyd tipyn o gyhoeddusrwyddwrthgyflwyno yr enw Dreigiau Cymru ar y tîm ar gyfer y gystadleuaeth 20/20. Rhoddwyd tocynnau rhad ar gyfer y gêm gartref lwyddiannus yn erbyn Swydd Warwick. Ond cwyno mae nifer ynglŷn ag elfen 'Cymru' i'r tîm. Marsh a North o Awstralia, van Jaarsveld o Dde'r Affrig, a mwyafrif o'r gweddill wedi ymuno o siroedd Lloegr. Y ddau hen ben, Simon Jones a Croft yn chwifio'r faner – a'r ddau yn dod i ddiwedd eu gyrfa. Ble mae'r feithrinfa Gymreig? Yn

ne a gogledd Cymru bellach mae Uwch Gynghreiriau. Y bwriad oedd meithrin talent lleol. Ni ddaw'r chwaraewyr o feithrinfa 'y gynghrair' fel o'r blaen. Gwario arian prin i ddenu tramorwyr a gobeithio 'prynu llwyddiant' yw'r polisi.

A oes problem uniaethu â'r garfan bresennol? Mewn un gêm 4 diwrnod yn y Swalec yn ddiweddar dim ond 350 o wylwyr oedd yn talu. Sylwais fod llawer llai o bobl ifanc draw ym Mae Colwyn eleni.

Yn y gogledd - ac yn enwedig yn rhanbarth Eryri – mae prinder ieuencid i gynnal tri thîm cynghrair dan 11, 13 ac 15. Yr oedran hynaf yw'r brif broblem. Mae'r flwyddyn arholiadau yn holl bwysig. Mae nifer yn sylwi bod y brwdfrydedd cyn y 'flwyddyn arholiadau' yn prysur ddirywio wedi'r cyfnod tyngedfennol i'r bobl ifanc. Gyda phêl-droed a'i holl dwrnameintiau'r haf yn llwyr reoli, yna mae penderfyniadau pwysig i'w gwneud er mwyn cynnal meithrinfa criced yn ein hardaloedd.

Gwasanaeth Gwres a Plymio

Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser
OLEW • NWY NATURIOL • LPG

Tel. (01286) 872328 • Mobile- 07798 746718

Etape Eryri: Beicio'r Ffyrdd Mynyddig.

Unwaith yn rhagor, trefnodd y cwmni lleol “Camu i'r Copa/ Always Aim High” ddigwyddiad o bwys yn dilyn llwyddiant Triathlon Llanc y Llechen yn Llanberis y mis diwethaf. Y tro hwn daeth dros 500 o feicwyr, nifer helaeth ohonynt yn lleol, i roi cynnig ar dri chwr: yr Etape Bach (47 milltir), yr Etape Canolig (70 milltir) a'r Etape Mawr (dros 100 milltir).

Gan gychwyn o Faes Caernarfon roedd y cwrs yn arwain allan ar hyd Y Foryd, ond buan y dechreuwyd dringo drwy Benygroes a thrwy Ddrws y Coed i Ryd-ddu. Disgyn i Feddgelert, a'r Etape Bach yn troi am Nant Gwynant cyn dringo am Ben y Gwryd a Phen Gorffwysfa. Disgyn drwy fwllch Llanberis ac ymlaen i Lanrug cyn troi drwy'r Ceunant am Y Waunfawr a disgyn eto i Gaeathro a'r Bontnewydd a dychwelyd i Gaernarfon. Ym Meddgelert, roeddy gweddill yn dilyn Bwlch Aberglaslyn cyn troi drwy Lanfrothen a'r Rhyd.

Yna, ymlaen i Flaenau Ffestiniog, dros fwllch Gorddian i Ddolwyddelen a Betws y Coed. Dringo yn ôl am Gapel Curig ac ymuno â llwybr yr Etape Bach ym Mhen y Gwryd. Ym Mlaenau Ffestiniog, roedd beicwyr yr Etape Mawr yn troi am Lan Ffestiniog a Gelli Lydan cyn dringo am Drawsnydd. Yna troi am Y Bala a dringo drwy Gwm Prysor cyn croesi'r Migneint i Ysbyty Ifan a Phentrefoelas. Dilyn yr afon Conwy yn ôl i Fetws y Coed a Llanrwst cyn ei chroesi a dychwelyd i'r Betws. Yna dilyn llwybr yr Etape Canolig yn ôl i



Gaernarfon. Daeth David Brailsford, Rheolwr Tim Beicio Sky, yn ôl i'w gynefin, a dewis y cwrs byr, ond roedd yn uchel ei ganmoliaeth o'r trefniadau a'r cyfleoedd i feicwyr lleol. Roedd nifer o feicwyr o'r fro yn cystadlu yn un o'r tri chwr, ond dylid rhoi sylw arbennig i Joan Glass o Ddinorwig am gwblhau'r Etape Bach mewn 3 awr 39 munud a 35 eiliad, oherwydd mai hi oedd y ferch hynaf i gwblhau'r cwrs, ac heb ddatgelu gormod o gyfrinach, roedd yn cystadlu yn y dosbarth dros 70 oed.

Yn yr Etape Mawr gorffennodd Gareth McGuinness o Lanrug y cwrs ar y blaen i bawb mewn amser anhygoel o 5 awr 12 munud a 50 eiliad. Mae hynny'n golygu iddo feicio'r can milltir ar gyfartaledd o 20 milltir yr awr. Does ryfedd ei fod yn Bencampwr Cymru! Eraill o'r fro i gwblhau'r Etape Mawr oedd Iwan Morton o Gwm y Glo (5:41:00), Dafydd Williams, Llanberis (5:47:24), Phil Lynes, Llanrug (7:21:56), Telor Iwan, Waunfawr, yn dychwelyd i'w hen gynefin (7:34:14) a Berwyn Jones, Llanrug (7:34:45).



TARIAN I'R BEGANIYS

Llongyfarchiadau i dîm pêl-droed Waunfawr ar gipio pencampwriaeth Cynghrair Caernarfon a'r cylch.

GWERSI'R KIWI

O dan drefniadaeth cynllun 5 x 60 mae rhai o ddisgyblion bl. 7/8/9 Ysgol Brynrefail yn derbyn gwersi criced. Yr hyfforddwr yw Simon Murley, chwaraewr tramor clwb Dinas Bangor eleni. Un o Dunedin, Seland Newydd yw Simon ac yn droellwr llaw chwith. Mae Simon wedi ei blesio gyda ymateb y criw ac eisoes yn canmol potensial y grŵp. Mae croeso iddynt, ac unrhyw un arall, fynychu nosweithiau hyfforddi ieuencid y clwb draw yn Llandegai ar nos Fawrth, rhwng 6pm a 7.30pm. Eisoes mae rhai o fro'r Eco yn mynychu, ac ambell oedolyn yn chwarae i'r timau hŷn. Hefyd mae Simon yn gobeithio trefnu 'camp hyfforddi' dros ddau ddiwrnod yn ystod gwyliau'r haf.

Cefnogwch ein hysbysebwr

YSWIRIANT FUW

Hoffech chi hybu:

Bwyd Lleol
Busnesau cefn gwlad
Economi wledig

Trwy gefnogi Yswiriant FUW?
Yswiriant car, ty neu unrhyw fusnes

Dafydd P Jones 01492 642683 Dwyrain Sir Gaernarfon

Buddsoddi yn eich cymuned

Mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi ei awdurdodi a'i reoli gan Awdurdod y Gwasanaethau Ariannol, yng nghyd-destun cyfryngu yswiriant, o dan Rhif Cofrestru 308935

J.M. JONES

a'i Feibion
LLANRUG

Gwaith Coffaol

Ffon Gwaith
01286 672898

Cartref
01248 679089

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Erbyn i'r rhifyn hwn o'r "Eco" eich cyrraedd, bydd cyfres rasys nos Fawrth Joe Brown wedi gorffen. Cynhaliwyd y ras olaf ddeuddydd cyn i'r papur ddod o'r wasg. Mae'r gyfres wedi torri pob record eleni eto, er gwaethaf y tywydd echrydus a gafwyd mewn rhai rasys. Mae mwy o blant nac erioed wedi cystadlu, ac y mae dyfodol rhedeg mynydd yn Eryri yn eithaf diogel os bydd y rhain yn dal ati. Mae dros 250 o oedolion wedi cymryd rhan hyd yma: cynnydd eto eleni. Mae'n amlwg fod rasys byr canol wythnos yn denu, a'r cymdeithasu a'r tynnu coes yn creu awyrgylch braf. Er fod y gyfres yn agored i bawb, mae'n ymddangos mai rhedwyr y fro hon fydd yn agos i'r brig unwaith eto. Bydd y canlyniadau yn llawn fis Medi.

Uchafbwynt y tymor rhedeg mynydd yn lleol fydd Ras yr Wyddfa yn ystod y mis hwn. Eleni eto, bydd disgwyl tua 500 o redwyr i gystadlu, llawer ohonynt o dramor. Tybed a welir rhedwr o Gymru yn cyrraedd y brig? Pob hwyl i bawb ar y cystadlu. Ac os na fuoch yn ddigon ffodus i gael eich derbyn i'r ras, wel mae Ras Elidir yn cael ei chynnal ar y diwrnod canlynol, ac y mae'r dringo ar honno yn galetach na'r Wyddfa! Sgwn i faint sy'n fodlon rhoi cynnig ar y ddwy ras mewn deuddydd?

Ras yr Wyddfa. Marathon Eryri. Cyfres yr Ironman... Ie, mae'n hardal bellach ar fap chwaraeon y byd. Dyma hyrwyddo ardal yn wir ystyr y gair. Rhaid canmol Cyngor Gwynedd hefyd am feithrin polisi o gefnogi y digwyddiadau. Y mis yma ategwyd enw arall, sef Etape Eryri. Ras feics yn cynnal mwy nag un 'cwrw' wedi ei anelu at y beiciwr cystadleuol rhyngwladol hyd at y beiciwr lleol. Bu sawl un yn cwyno pan sefydlwyd y 'llwybrau beicio' ledled y sir.

Yn ddiarnheul mae'r weledigaeth yma wedi denu llawer at feicio. Mae'n ymateb i elfennau iechyd, cymdeithasol a gor-drafnidiaeth. Roedd yr Etape wedi apelio at nifer o feicwyr lleol, a braf oedd clywed eu canmoliaeth ar Radio Cymru. Braf gweld defnydd cymdeithasol o'r Maes yng Nghaernarfon fel rhan o'r achlysur. Dyma'r 'status quo' ar y cyfandir.

Ymysg y cystadleuwyr roedd David Brailsford, Cyfarwyddwr Perfformiad tîm beicio Prydain yn y Gemau Olympaidd, ac hefyd rhai aelodau Tîm Rasio Sky. Yn sicr, mae rasio beicio dan do wedi mynd yn gryn ffefryn gan lawer a'r cyfleuster gwych yn Velodrome Casnewydd yn atyniad.

Onid oes neges i'n cymunedau lleol drwy lwyddiant y digwyddiadau hyn. Pam nid trefnu ambell ddigwyddiad yn ein pentrefi. Mae mwg gennyf adref o gystadleuaeth ryng-bentrefol ardal Arfon. Rhedodd am ddwy flynedd yna diflannu, er y pleser a balchder pentref a greodd. Pa ddefnydd a wnawn o'r cae pêldroed, rygbi neu griced tu allan i dymor. Onid dyma leoliadau ar gyfer noson rasys, gemau giamocs blynyddol i'n pentrefi. Beth amdani? Ynteu a ydym yn fodlon â'r hen gri 'nad oes dim byd i wneud'?

Er bod y genod yn edrych ymlaen roedden nhw'n gwybod bod hon am fod yn gêm anodd - ac felly y bu. Roedd hi'n gêm agos iawn, gyda chyfleoedd i'r ddau dîm, ond di-sgôr oedd y canlyniad ac felly amser ychwanegol. Roedd y genod yn benderfynol nad oeddent am ildio gôl ac yn amddiffyn yn gadarn. Cafwyd sawl cyfle'r pen arall ond roedd y gwrthwynebwyr yr un mor gadarn yn eu hamddiffyn. Di-sgor felly ar ddiwedd amser ychwanegol a thynged y gêm yn dod lawr i giciau o'r smotyn.

Er iddyn nhw golli yn yr un sefyllfa llynedd roedd digon o wirfoddolwyr parod i gymryd y ciciau. Man City'n gyntaf - a methu. Tro Caernarfon a gôl gan Mari Gibbard. Sgoriodd Man City gyda'r nesa i'w gwneud yn 1-1 a Chaernarfon yn methu. Methodd Man City gyda'r ddwy nesa hefyd a Kim Parry yn sgorio i Gaernarfon. Felly gyda'r gic smotyn olaf roedd rhaid i Man City sgorio, ond arbediad gwych gan Mared Jones yn y gôl.

Ffeinal felly yn erbyn Skem Athletic a dechrau digon da i'r gêm. Ond sgoriodd y gwrthwynebwyr ar ôl 3 munud ac er ymdrechu'n galed felly arhosodd y sgôr ar ddiwedd yr hanner cyntaf. Fe wnaeth y genod barhau i ymdrechu, ond roedd canol cae'r gwrthwynebwyr yn rhy gryf yn yr ail hanner ac fe gawson nhw gôl arall cyn y diwedd. Colli 2-0 ond wedi creu argraff ar bawb yn ystod y dydd.

Roedd digon i ddathlu a'r genod yn flinedig iawn ar ôl diwrnod hir o chwarae. Roedd eu rheolwyr, Kevin Tulliver ac Aled Gibbard, yn falch iawn o'u perfformiad yn ystod y dydd. Hoffai'r rheolwyr hefyd longyfarch Lois Regan ar gael ei dewis yn chwaraewr y twrnaint. - dipyn o gamp o ystyried safon y gwrthwynebwyr yn y gystadleuaeth. Bu iddi arddangos yr un doniau sydd wedi dod a hi i sylw tîm cenedlaethol dan 16 Cymru ac wedi cynrychioli ei gwlad 2 waith yn ystod y tymor. Dalier ati Lois.

Yn ffodus yn y mwyafrif o bentrefibro'r Ecomae o hyd 'gwt snwcer'. Bu hon yn gyrchfan dros y blynnyddoedd ac mae sawl unigolyn wedi brwydro i gadw'r drws yn agored. Yn ffodus hefyd roeddent yn groesawgar i chwaraewyr ifanc, a pharod eu hyfforddiant. I foi ffwtbol a chriced fel fi, buan y dois i sylweddoli fod boîs – a merched – y dartiau, pwl a snwcer yr un mor daer ac ymroddgar i'w campau hwy.

Chwaraewr ifanc o Ddeiniolen sy'n cael sylw y tro hwn. 12 oed yw Gwion Jones ac yn aelod o glwb snwcer Deiniolen ers dwy flynedd. Yn amlwg mae'r llu o oriau mae'n eu treulio yn ymarfer yn y clwb yn dechrau dwyn ffrwyth.

Draw yn Llanfairpwll
cynhaliwyd cystadleuaeth
graddio chwaraewyr ifanc yr
ardal. Daeth Gwion i'r brig ac
felly bydd yn cael gwahoddiad
i gystadlaethau mwy safonol.

Gyda'i bartner, Daniel Lewis, cipiodd brif wobr y dyblau hefyd. Eisoes cafodd Gwion wahoddiad i dwrnamaint yn Abergwyngregyn ble bydd hyfforddwr trwyddedig yn cadw golwg ar y talentau ifanc.

Ar hyn o bryd ei rediad uchaf yw 51 pwynt, a'i uchelgais yw cael ei rediad o 100 cyntaf.

Mae mantais gan Gwion gan ei fod mewn olyniaeth. Ei daid oedd neb llai na John G. - enw chwedlonol ym myd snwcer Deiniolen. Un da i'w efelychu.

Mae Gwion yn bêl-droediwr hefyd, ac yn chwaraewr ganol cae i dîm Deiniolen. Gan na fydd tîm yno y tymor nesaf mae'n symud at dîm Bontnewydd. Wrth ei holi braf oedd clywed ei fod yn ymfalchio yn ei ddwy fedal aur fel aelod o dîm Deiniolen a enillodd dlws Eco'r Wyddfa ddwy flynedd yn olynol.

Dymuniadau gorau i Gwion ar
y bwrdd ac ar y cae.

23

Chwaraeon



Pencampwyr



Llongyfarchiadau i Arwel Lewis o Fethel ar ddod yn bencampwr marathon Prydain i redwyr dros 50 oed. Enillodd y teitl yn Ninbych y Pysgod yn ystod Mehefin mewn ras farathon agored. Ar gwrs anodd yn llawn gelltydd, roedd yr enillydd (ifanc!) yn ôl mewn 2 awr a 47 munud. Gorffennodd Arwel yn ddegfed yn y ras mewn amser o 3 awr a 6 munud.

Gareth McGuinness o Lanrug yw bencampwr beicio ffordd Cymru. Enillodd y gystadleuaeth yn Llanfair ym Mualt yn ystod y mis diwethaf, a hynny ar ôl methu o drwch blewyn y llynedd yn Y Fenni. Roedd y ras yn 57 milltir o hyd, a thorrodd Gareth yn rhydd oddi wrth ei wrthwynebwyr gyda rhyw dair milltir i fynd. Mae Gareth yn beicio o ddifrif ers tua saith mlynedd, ac yn golygu ymarfer caled gydol y flwyddyn i gyrraedd y safon hwn.

Genod Dre

Ar ddiwedd gwyliau'r Sulgwyn fe aeth tîm pêl-droed dan 15 Caernarfon i Skelmersdale i dwrnamaint genethod mwya'r wlad. Dros y penwythnos roedd bron i 100 o dimau yn cymryd rhan mewn cystadlaethau i bob oedran rhwng 10 a 16.

Yr hyn sy'n ei wneud yn berthnasol i Fro'r Eco yw bod 6 o'r garfan yn genod yfro ac yn ddisgyblion Ysgol Brynrefail sef Catrin Gruffudd, Ela Owen, Hanna Tulliver, Lois Regan, Manon Thomas a Mari Gibbard.

Collodd y genod yn y rownd gynderfynol llynedd ar giciau o'r smotyn a'r her eleni oedd ceisio fynd un cam ymhellach. Ond roedd hynny yn mynd i fod yn dipyn o gamp o ystyried rhai o'r



timau eraill yn y gystadleuaeth. Yn eu plith roedd rhai o enwau cyfarwydd Cynghair Lloegr - Wigan Athletic, Burnley, Bury, Blackpool a Man City.

Roedd y gem gyntaf yn erbyn Wigan a'r genod yn curo o 1-0, diolch i gôl gampus gan Lois Regan. Cychwyn cadarn felly ac ar ddiwedd y gemau grŵp

roedden nhw wedi ennill 4, colli 1 a chael 1 gem gyfartal. Roedd hynny'n ddigon i fynd i'r rownd gyn derfynol â gem yn erbyn Man City. Parhad Tud 23

TLWS YRECO 2012

Erbyn hyn mae y trefniadau wedi eu gwneud ar gyfer twrnamaint 2012. Mae nifer o dimau lleol wedi bod yn llwyddiannus y tymor diwethaf, ac edrychwn ymlaen at gystadleuaeth safonol eleni. Fel llynedd bydd cystadleuaeth dan 9 a dan 11. Dyma'r trefniadau.

DAN 9: NOS FAWRTH, Gorffennaf 10 ar Gae'r Ddôl, Llanberis am 6pm.

DAN 11: NOS FERCHER, Gorffennaf 11, ar Eithin Duon, Llanrug am 6pm.

Y drefn ar gyfer y ddwy gystadleuaeth yw CARFAN o 10, gyda 8 CHWARAEWR YM MHOB TÎM.

Y gost fel arfer yw £10 y tîm.

Gadewch i mi wybod os ydych am gystadlu cyn gynted a phosibl.

Mae'n haws os yw'r arian cystadlu yn cyrraedd yr un pryd.

Fel arfer, bydd Catrin Jones Ysgol Llanrug yn cysylltu â'r ysgolion gyda'r trefniadau am y gystadleuaeth bêl-rwyd. Ymlaen â'r ymarfer.